Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar Fil Seilwaith (Cymru)

Tachwedd 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDCC**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar Fil Seilwaith (Cymru)

Tachwedd 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Huw Irranca-Davies AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 5**

Diben y Bil ..... 6

Cylch gwaith y Pwyllgor ..... 7

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol ..... 9**

Ein barn ni ..... 13

**3. Sylwadau cyffredinol ..... 15**

Datblygiad y Bil a’r angen amdano ..... 15

Pwerau dirprwyedig a’r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a’r hyn sy’n cael ei adael i is-ddeddfwriaeth ..... 19

Y rhyngweithio â darnau eraill o ddeddfwriaeth ..... 22

Ein barn ni ..... 23

**4. Sylwadau penodol ar Rannau ac adrannau penodol o'r Bil ..... 29**

Rhan 1 o’r Bil: Prosiectau seilwaith arwyddocaol ..... 29

Ein barn ni ..... 29

Rhan 2 o’r Bil: Gofyniad am gydsyniad seilwaith ..... 31

Ein barn ni ..... 32

Rhan 3 o’r Bil: Gwneud cais am gydsyniad seilwaith ..... 33

Ein barn ni ..... 40

Rhan 4 o’r Bil: Archwilio ceisiadau ..... 42

Ein barn ni ..... 48

Rhan 5 o’r Bil: Penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith ..... 49

Ein barn ni ..... 54

Rhan 6 o’r Bil: Gorchmynion cydsyniad seilwaith ..... 57

Ein barn ni ..... 62

Rhan 7 o’r Bil: Gorfodi ..... 65

Ein barn ni ..... 66

Rhan 8 o’r Bil: Swyddogaethau atodol ..... 66

Ein barn ni ..... 75

# 1. Cyflwyniad

## Ar 12 Mehefin 2023, fe wnaeth Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog) gyflwyno Bil Seilwaith (Cymru) (y Bil),[1] a'r Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm Esboniadol) cysylltiedig.[2]

**1.** Mae Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog ar 12 Mehefin 2023 yn nodi:

> *"Mae'r Bil yn hanfodol i gyflawni prosiectau seilwaith arwyddocaol yn amserol yng Nghymru ac yn gam pwysig tuag at gefnogi ymrwymiadau'r Llywodraeth i gyflawni'r targedau ynni adnewyddadwy wrth inni symud at allyriadau 'sero net' erbyn 2050."*[3]

**2.** Fe wnaeth y Gweinidog hefyd wneud datganiad llafar yn y Senedd ar 13 Mehefin.[4]

**3.** Yn y Memorandwm Esboniadol, dywed y Gweinidog:

> *"Mae Bil Seilwaith (Cymru) yn sefydlu proses gydsynio unedig ar gyfer datblygu seilwaith yng Nghymru ac yn nyfroedd Cymru, gan ddisodli sawl gyfundrefn statudol. Gelwir y math newydd o gydsyniad yn 'Gydsyniad Seilwaith' ("CS") a bydd yn cael ei roi mewn perthynas â phrosiectau a ragnodir fel 'Prosiect Seilwaith Arwyddocaol' ("PSA"). Mae categorïau o seilwaith a fydd yn cael statws PSA yn cynnwys prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr, ymhlith mathau eraill o seilwaith. Rhaid i ddatblygwyr gael CS ar gyfer PSA, a bwriedir i'r CS gynnwys yr amrywiaeth lawn o awdurdodiadau sy'n ofynnol i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo."*[5]

[1] Bil Seilwaith (Cymru), fel y'i cyflwynwyd
[2] Bil Seilwaith (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Mehefin 2023
[3] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cyflwyno Bil Seilwaith (Cymru), 12 Mehefin 2023
[4] Y Cyfarfod Llawn, 13 Mehefin 2023
[5] Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1

**4.** Fe wnaeth Pwyllgor Busnes y Senedd gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, ac fe wnaeth bennu bod angen cyflwyno adroddiad erbyn 24 Tachwedd 2023 yn trafod ei egwyddorion cyffredinol.[6]

**5.** Ar 12 Mehefin 2023, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, gan ddarparu copi o Bapur Methodoleg ar gyfer Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru. Noda'r Gweinidog fod y papur hwn yn ategu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhwysir yn y Memorandwm Esboniadol.[7]

**6.** Ar 1 Medi 2023, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad o fwriad polisi ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil.[8]

## Diben y Bil

**7.** Mae teitl hir y Bil yn datgan mai diben y Bil yw:

> *"diwygio'r gyfraith sy'n llywodraethu datblygiad seilwaith arwyddocaol yng Nghymru ac ardal forol Cymru; ac at ddibenion cysylltiedig."*

**8.** Dywed y Memorandwm Esboniadol:

> *"Amcan a diben cyffredinol y Bil fydd uno'r cyfundrefnau cydsynio presennol ar y sail ganlynol:*
>
> *• Cysondeb – Er mwyn galluogi'r cyhoedd a datblygwyr i ddefnyddio un broses ar draws pob math o seilwaith, gan ddarparu effeithlonrwydd gweinyddol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a bod y rhai sy'n ymwneud â'r broses yn gallu dod yn gyfarwydd â hi, a fydd yn lleihau oedi.*
>
> *• Sicrwydd – I roi sicrwydd o ran amserlenni i bawb sy'n rhan o'r broses, fel bod y cyhoedd yn glir ynghylch pryd y gwneir penderfyniadau, ac nad yw achosion yn cael eu hestyn yn ddiangen, ac i alluogi datblygwyr i gynllunio prosiectau gyda mwy o gywirdeb.*

---

[6] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried, Mehefin 2023
[7] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 12 Mehefin 2023
[8] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad Polisi, Medi 2023

*• Gobaith o lwyddiant – I ddarparu fframwaith strategol a pholisi clir y bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol ag ef, er mwyn galluogi datblygwr i wybod a oes disgwyl i'r cais fod yn llwyddiannus cyn gwneud cais am gydsyniad.*

*• Ansawdd ceisiadau – I ddarparu'r gofynion y bydd rhaid eu bodloni fan lleiaf o ran ymgynghori cyn ymgeisio a chyflwyno cais er mwyn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ganfod yn well effeithiau datblygiad o'r cychwyn cyntaf, gan hefyd ddarparu gwybodaeth fwy gwybodus i'r cyhoedd.*

*• Dryswch – I ddarparu proses fwy cyson a chynhwysol, sy'n galluogi'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r broses gynllunio i ymwneud yn fwy effeithiol â hi.*

*• Cymhlethdod – I alluogi datblygwr i gael yr holl awdurdodiadau a chydsyniadau y mae eu hangen arno i roi prosiect ar waith, gan gael gwared ar yr angen i'r cyhoedd ymwneud â sawl phroses gydsynio, a lleihau'r costau cyffredinol i bawb."*[9]

## Cylch gwaith y Pwyllgor

**9.** Cylch gwaith y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol, sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru neu sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**10.** Wrth inni graffu ar Filiau a gyflwynwyd yn y Senedd, rydyn ni wedi mynd ati i ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys cydymffurfiaeth â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r wybodaeth sy'n cael ei gadael i is-ddeddfwriaeth;

[9] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.5

- a oes gweithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi'i dewis, mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, i wneud is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater arall yr ydym yn ei ystyried yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

**11.** Fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidog ar 27 Gorffennaf 2023 gyda chyfres o gwestiynau.[10] Ymatebodd y Gweinidog ar 11 Medi 2023.[11]

**12.** Clywsom dystiolaeth lafar gan y Gweinidog ar 25 Medi 2023[12], ac wedi hynny fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidog gyda rhagor o gwestiynau.[13] Ymatebodd y Gweinidog ar 3 Hydref 2023.[14]

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn i'r ddadl ar egwyddorion cyffredinol Cyfnod 1 gael ei chynnal.

[10] Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Gorffennaf 2023
[11] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023
[12] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023
[13] Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Medi 2023
[14] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

## Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[15]

**13.** O ran cymhwysedd deddfwriaethol, fe wnaethom ystyried y Bil o dan y model pwerau a gadwyd, fel y nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

**14.** Dywed y Gweinidog yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol gan Senedd Cymru ("y Senedd") i wneud y darpariaethau yn y Bil yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("GoWA 2006") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017."*[16]

**15.** Dywedodd Y Llywydd, y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, y byddai "y rhan fwyaf o ddarpariaethau" y Bil fel y'i cyflwynwyd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Meddai:

> *"Ni fyddai'r darpariaethau canlynol o fewn cymhwysedd oherwydd bod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar eu cyfer ac na chafwyd cydsyniad o'r fath ar hyn o bryd:*
>
> *Adran 30 – Ymgynghori a chyhoeddusrwydd cyn ymgeisio;*
>
> *Adran 33 – Hysbysiad o geisiadau a dderbynnir a chyhoeddusrwydd;*
>
> *Adran 45 – Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad;*
>
> *Adran 46 – Talu cynrychiolydd a benodir pan fo mynediad at dystiolaeth wedi'i gyfyngu;*
>
> *Adran 60 – Beth y gellir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith;*

[15] Memorandwm Esboniadol, paragraff 2.1. Gweler hefyd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [6].
[16] Memorandwm Esboniadol, paragraff 2.1

*Adran 87 – Pŵer i newid neu ddiddymu gorchmynion cydsyniad seilwaith;*

*Adran 121 – Ffioedd ar gyfer perfformio swyddogaethau a gwasanaethau cydsyniad seilwaith; ac*

*Adran 126 – Pŵer i ymgynghori a dyletswydd i ymateb i ymgynghoriad."*[17]

**16.** Ar 27 Mehefin 2023, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn cadarnhau bod y Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n gofyn am gydsyniad Gweinidog priodol y DU. Mae llythyr y Gweinidog hefyd yn nodi bod darpariaethau eraill yn y Bil yn gofyn am ymgynghori â Gweinidog priodol y DU, ei bod wedi ymdrechu i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer caniatáu gorsafoedd cynhyrchu ynni ar y môr rhwng ymyl y môr tiriogaethol ac ymyl parth Cymru, a'i bod wedi ceisio egluro gallu'r Senedd i ddeddfu mewn perthynas â storio ynni. Amgaeodd y Gweinidog dri llythyr perthnasol at y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, dyddiedig 7 Ionawr 2022, 11 Ionawr 2023 a 12 Mai 2023. Yn ei llythyr dyddiedig 27 Mehefin 2023 mae'r Gweinidog yn nodi nad yw wedi derbyn ymateb i'r llythyron a anfonodd ym mis Ionawr 2022 ac Ionawr 2023.[18]

**17.** Ar 6 Gorffennaf 2023, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith na chlywodd unrhyw beth yn ôl[19] o ran ei chais ynglŷn â throsglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol, gan ddweud nad oedd wedi cael ymateb gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac na fu'n llwyddiannus o ran cael swyddogion perthnasol Llywodraeth y DU i ymgysylltu.[20] Dywedodd y Gweinidog hefyd wrth y Pwyllgor ei bod wrthi'n trafod prosesau uwchgyfeirio â'r Cwnsler Cyffredinol a'r Prif Weinidog.[21]

**18.** Pan roddodd y Gweinidog dystiolaeth inni ar 25 Medi 2023, cadarnhaodd fod y materion yn ymwneud â chydsyniad Gweinidogol a throsglwyddo cymhwysedd

[17] Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol, Bil Seilwaith (Cymru) 12 Mehefin 2023
[18] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 27 Mehefin 2023
[19] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith 6 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion [240]
[20] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 6 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion [225]
[21] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 6 Gorffennaf 2023, Cofnod y Trafodion [233]

deddfwriaethol yn dal heb eu datrys.[22] Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at ohebiaeth rhwng Llywodraeth y DU a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod rhywfaint o ddryswch.[23] Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"I'm actually shortly going to write again and say, 'What on earth is going on? Please get on with it.' (…) as far as we're concerned, that's not resolved. But I will say nor is it in dispute as yet, although we might now—. I might accelerate it up the chain. So, at the moment, we've discussed it in one-on-one meetings with the Minister, but I might accelerate it to what's called an inter-ministerial group, which is the next tier up, if I don't get a satisfactory response shortly."*[24]

**19.** Wrth drafod y mater o gydsyniad gan Weinidog y Goron, sy'n dal heb ei ddatrys, dywedodd y Gweinidog:

> *"I have had absolutely nothing to do with that at all. That's been done at official level, and I'm informed by the officials—and please feel free to add to this—that it's all going fine and they're not expecting it to be a problem, although it's not yet resolved."*[25]

**20.** Mae un o'r gofynion y mae'n rhaid ei fodloni er mwyn i Fil fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd wedi'i nodi yn adran 108A(2)(e) o Ddeddf 2006, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i holl ddarpariaethau Bil gydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Hawliau'r Confensiwn).

**21.** Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn trafod hawliau dynol. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pa ystyriaeth a roddwyd i hawliau dynol wrth baratoi'r Bil. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"… we've done an assessment of the Bill, as always, to ensure that it's compatible with human rights and the usual tests of*

---

[22] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [8]
[23] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [8]. Gweler Llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, 25 Gorffennaf 2023, a Gohebiaeth e-bost gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 1 Awst 2023.
[24] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [8]
[25] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [9]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [46] i [49].

> *proportionality, justification and reasonableness in balancing the rights of individuals—the normal assessment that we would do. We've taken into account whether a fair balance has been struck, and they include compensation to property owners for interference with property rights where appropriate, and procedural safeguards to provide individuals an opportunity to challenge anything that happens that affects their property rights".*[26]

**22.** Mae adran 43 yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer pwerau mynediad i archwilio tir nad yw'r ceisydd yn berchen arno neu'n ei feddiannu. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pa egwyddorion a fydd yn berthnasol i'r pwerau hyn i gael mynediad i'r tir hwnnw, a pham nad yw'r egwyddorion hynny ar wyneb y Bil. Dywedodd y Gweinidog:

> *"… these replicate powers that already exist in the planning system, and this is to ensure that it's a discretionary thing, where you can't get consensus, you can still go and inspect for various purposes and so on, but it is intended to make sure that you're not, I don't know, disrupting a wedding that's taking place in a particular—just to pluck a random private event. You're not overly disrupting the peaceful occupation of the land in question, but that the landowner cannot refuse absolutely to allow you access. Those are existing rights in planning law now, so this just replicates them. We wouldn't expect to put those on the face of the Bill, because we're not replicating the whole of planning law on the face of the Bill, we're looking at the changes, and there'll be powers to look at that through secondary legislation."*[27]

**23.** Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog:

> *"I think, particularly at examination stage, it's essential that the examining authority actually has access to the land, so to go out and do site visits. We're looking very much at how we can limit that power, accepting that it's already there at the moment. So, if the committee's got a view on whether there are*

[26] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [57]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [58] i [61] a [65] i [68].
[27] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [63]

*other ways things could be done, I think it's a case of letting us know as well. But this is long established, certainly when it comes to the examination, ensuring that that inspector actually understands how that development sits within that particular landscape and taking different perspectives within a landscape is essential. So, yes, it's something historically that we've dealt with by regulation, and I think that does allow us an element of flexibility. Particularly again—it's back to this issue of how we future proof this—if there are new ways where you don't actually need to enter the land but you can inspect it, that's something which could be covered as well in that way."*[28]

**24.** Fe wnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog a oedd asesiad o'r effaith ar gyfiawnder wedi'i gynnal ar gyfer y Bil. Cadarnhaodd y Gweinidog fod asesiad o'r effaith ar gyfiawnder wedi'i gyflwyno i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Ionawr 2023, a bod ymateb wedi'i dderbyn ym mis Ebrill a oedd yn dod i'r casgliad na fyddai'r Bil yn cael effaith o gwbl neu mai effaith fach iawn a gâi ar y system gyfiawnder, ac felly na fyddai unrhyw ddiwygiad i'r system gyfiawnder ac felly ni oedd angen diwygio dull Llywodraeth Cymru yn hyn o beth.[29] Rhannodd y Gweinidog gopi o'r asesiad o'r effaith ar gyfiawnder â ni ar 3 Hydref 2023.[30]

## Ein barn ni

**25.** Rydym yn nodi datganiad y Llywydd y byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**26.** Rydym hefyd yn nodi'r dystiolaeth mewn perthynas â materion cymhwysedd deddfwriaethol a gafwyd gan y Gweinidog.

**Casgliad 1.** Mae'n siomedig clywed tystiolaeth gan y Gweinidog nad yw trafodaethau rhynglywodraethol am y Bil wedi bod yn llwyddiannus hyd yma. Mae hefyd yn destun pryder ei bod yn ymddangos nad yw cais ffurfiol gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol wedi cael ymateb o ystyried bod rhyw 10 mis wedi mynd heibio adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am drafodaethau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ynghylch y materion sy'n

[28] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [64]
[29] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [70]
[30] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023

dal heb eu datrys, sef cydsyniad Gweinidog y Goron a throsglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer caniatáu gorsafoedd cynhyrchu ynni ar y môr rhwng ymyl y môr tiriogaethol ac ymyl parth Cymru.

**27.** Rydym hefyd yn nodi ymateb y Gweinidog ynghylch pwerau mynediad, ac yn gwneud sylwadau ar wahân ar adran 43 yn ddiweddarach ym Mhennod 4 o'r adroddiad.

# 3. Sylwadau cyffredinol

## Datblygiad y Bil a'r angen amdano

**28.** Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar "Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith: Tuag at sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru" rhwng 30 Ebrill a 23 Gorffennaf 2018.

**29.** O ystyried na chafodd y Bil ei gyflwyno i'r Senedd tan fis Mehefin 2023, gofynnwyd i'r Gweinidog i ba raddau y mae'r Bil wedi datblygu ers i'r ymgynghoriad gael ei gynnal, a oedd y Gweinidog wedi ymgynghori ar unrhyw newidiadau o'r fath, ac i ba raddau yr oedd y Gweinidog yn credu bod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd bum mlynedd yn ôl yn dal yn berthnasol heddiw. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"So, it's an immensely technical Bill. So, obviously, we don't get much response from Mrs Jones up in the Valleys, like, but we had one or two, but not very many. Mostly we're consulting with local planning authorities, planning officials, people who are technically enabled to understand what the process is and what we're trying to do. The majority of respondents fully agreed with and supported all of the proposals. So, it's not controversial in any way; it's very processy, as you know. We did review and amend the compulsory purchase powers as a direct result of the consultation responses, and then some of the other details that came back in consultation responses will be in the subordinate legislation, so cost recovery details, for example, came up in the consultation. We've had—the officials will tell you about it—but we've basically had a whole series of ongoing meetings with the various stakeholders, so with planning society Wales, with the local planning authorities, and I've had meetings with cabinet members and various other things. There's just been a whole series of consensual meetings with all of the people who would be required to actually implement the Bill, once it's gone ahead, and we've developed it very much in that vein. So, I don't think there's any kind of issue with it. We've spoken with Natural Resources Wales, we've spoken with*

> *Planning and Environment Decisions Wales, we've spoken with planning officers—everybody who might be interested, really."*[31]

**30.** Fe wnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog pam y bu cyfnod o bum mlynedd rhwng yr ymgynghoriad ar y cynigion a chyflwyno'r Bil i'r Senedd. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"Well, it's partly resource, to be fair. So, it's the same people who are also doing all of the other stuff that we're doing in this area. (...)*
>
> *... but it's also just the legislative timetable. So, this happens to be the slot that it's fallen into for various complicated reasons to do with other Bills, not necessarily this Bill."*[32]

**31.** Yn natganiad llafar y Gweinidog i'r Senedd ar 13 Mehefin 2023, dywedodd fod y cynigion yn y Bil "yn cefnogi sawl ymrwymiad yn ein rhaglen lywodraethu."[33]

**32.** Gofynnwyd i'r Gweinidog ddarparu naratif yn egluro'n fras sut y bydd y broses cydsynio newydd ar gyfer seilwaith yn gweithio, a sut y mae'n wahanol i'r broses bresennol. Dywedodd y Gweinidog:

> *"Mae Bil Seilwaith (Cymru) yn adeiladu ar weithdrefnau a sefydlwyd fel rhan o weithdrefn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yng Nghymru a'r rhai yn Neddf Cynllunio 2008 ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol."*[34]

**33.** Yn ei llythyr dyddiedig 11 Medi 2023, rhoddodd y Gweinidog grynodeb o'r camau o fewn y broses, ynghyd â thabl yn cymharu â'r prosesau cydsynio presennol a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd.[35]

**34.** Ym mharagraff 3.9 o'r Memorandwm Esboniadol, dywed y Gweinidog: "mae'r gwahaniaethau rhwng cyfundrefnau (cydsynio seilwaith) wedi parhau ac wedi ehangu ymhellach yn sgil datganoli seilwaith ynni o dan Ddeddf Cymru 2017".

[31] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [26]
[32] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [28] a [30]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [31] i [34].
[33] Y Cyfarfod Llawn, 13 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion [170]
[34] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 1
[35] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 1

**35.** Yn natganiad llafar y Gweinidog i'r Senedd ar 13 Mehefin 2023, ychwanegodd:

> *"Mae'r angen am y Bil hwn wedi codi o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2017, a ddatganolodd bwerau ychwanegol i Gymru ar gyfer cydsynio prosiectau cynhyrchu ynni, llinellau trydan uwchben, porthladdoedd a harbyrau a gweithfeydd seilwaith eraill. O ganlyniad i'r ffordd y cafodd y pwerau hyn eu datganoli, rydym wedi cael ein rhoi mewn prosesau cydsynio hen a hen ffasiwn gan Lywodraeth y DU nad ydynt yn addas i'r diben."*[36]

**36.** Ym mharagraff 3.19 o'r Memorandwm Esboniadol, mae'r Gweinidog yn datgan y byddai cael proses gydsynio unedig "yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys cydsyniadau eraill ac awdurdodiadau sy'n ofynnol mewn dull 'siop un stop'". Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog a allai egluro ymhellach beth mae hyn yn ei olygu, a rhoi esboniad ychwanegol.

**37.** Dywedodd y Gweinidog wrthym, ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, megis trwyddedau morol, bod "yn aml angen cydsyniadau, trwyddedau neu awdurdodiadau pellach o dan gyfundrefnau gwahanol i'r un a fyddai'n rhoi cydsyniad er mwyn gallu rhoi cynllun ar waith".[37] Dywedodd y Gweinidog y gall hyn achosi dyblygu, y gallai gynyddu costau'n sylweddol, a gall fod yn rhwystr i gynigion gael eu cyflwyno.[38] O ran y 'siop-un-stop', dywedodd y Gweinidog:

> *"Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i awdurdodiadau neu drwyddedau eraill sydd eu hangen ar gyfer y datblygiad gael eu hystyried ar yr un pryd a bod yn rhan o'r un cydsyniad. Bydd hyn yn sicrhau proses gyson sy'n effeithlon yn weinyddol ar gyfer penderfynu ar seilwaith ynni, gwastraff, dŵr a thrafnidiaeth mawr yng Nghymru. At hynny, ceir mathau penodol o ddatblygiadau sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd ar y tir ac ar y môr (megis môr-lynnoedd llanw ac addasiadau i harbyrau) ac maent yn ddarostyngedig i awdurdodaethau gwahanol. Byddai cael proses gydsynio unedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys cydsyniadau eraill ac awdurdodiadau sy'n ofynnol er mwyn hwyluso gwaith datblygu mewn dull 'siop un stop'.*

[36] Y Cyfarfod Llawn, 13 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion [171]
[37] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 3
[38] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 3

*Mae adran 60 o'r Bil yn nodi'r hyn y gellir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith, gyda darpariaeth sy'n ymwneud â gwaith datblygu neu faterion sy'n atodol i waith datblygu yn cael ei (eu) nodi yn Atodlen 1. Ystyrir bod y rhestr sydd wedi'i llunio yn un gynhwysfawr ar hyn o bryd.*

*Yn yr un modd, mae adran 81 o'r Bil yn darparu ar gyfer dileu gofynion cydsynio a'u tybio yn lle hynny. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i awdurdodiadau, caniatadau a chydsyniadau gael eu tybio heb ganiatâd yr awdurdod perthnasol a fyddai'n eu rhoi fel arfer. Bwriedir i'r manylion penodol gael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth ond gallai enghraifft gynnwys diddymu unrhyw ofyniad o dan Reoliadau Perthi 2017."*[39]

**38.** Ym mharagraff 3.18 o'r Memorandwm Esboniadol, dywed y Gweinidog y bydd y Bil yn "sefydlu dyheadau Llywodraeth Cymru i ymgymryd â phwerau datganoledig pellach mewn perthynas ag ynni a seilwaith arall". Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog roi manylion pellach inni ar y mater hwn. Yn ei llythyr atom ar 3 Hydref 2023, dywedodd y Gweinidog:

*"Mae'r Bil wedi'i gynllunio fel bod digon o hyblygrwydd i ystyried technoleg newydd a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg neu pe bai'r Senedd yn cael cymhwysedd deddfwriaethol uwchlaw'r trothwyon presennol. Nid oedd y cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol at ddyheadau am ragor o bwerau datganoledig wedi'i fwriadu i gyfeirio at unrhyw faterion penodol, ond mae'n adlewyrchu bod y broses a sefydlwyd gan y Bil yn addas i'r diben ac yn sicrhau y gall Cymru ddelio â phrosiectau seilwaith ar raddfa fawr mewn modd amserol ac effeithiol. Er hynny, mae fy llythyrau at Lywodraeth y DU yn nodi'n glir ddau faes y gallai'r Bil ymdrin â hwy [sef rhanbarth y môr mawr a storio batris]."*[40]

**39.** Gofynnwyd i'r Gweinidog gadarnhau, os bydd y Bil yn cael ei basio a'i ddeddfu, pryd y mae'n disgwyl y bydd holl ddarpariaethau'r Bil a'r is-ddeddfwriaeth sy'n cyd-fynd ag ef mewn grym yn llawn. Gan gydnabod y bydd Rhan 1 o'r Bil a'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau yn dod i rym y diwrnod ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol (yn unol ag adran 143 o'r Bil), dywedodd y Gweinidog

[39] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 3
[40] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023, ymateb i gwestiwn 12. Gweler hefyd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [18] i [24]

ei bod yn rhagweld y bydd y cyfnod gweithredu yn cymryd blwyddyn, yn amodol ar ganlyniad ymgynghoriadau ar is-ddeddfwriaeth.[41]

## Pwerau dirprwyedig a'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sy'n cael ei adael i is-ddeddfwriaeth

**40.** Mae Tabl 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn crynhoi'r pwerau yn y Bil a ddirprwywyd i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a gorchmynion. Mae Tabl 5.2 o'r Memorandwm Esboniadol yn crynhoi 17 o bwerau pellach i wneud cyfarwyddydau neu osod meini prawf cyhoeddedig; ni fydd arfer y pwerau hyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn Senedd.

**41.** O ystyried nifer y pwerau dirprwyedig, fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog a fyddai'n cadarnhau'r nifer ac yn rhoi dadansoddiad o'r holl bwerau dirprwyedig yn y Bil yn ôl eu math (gan gynnwys a yw pŵer yn bŵer Harri VIII), gan gynnwys pwerau i wneud rheoliadau pwerau i wneud cyfarwyddydau a phwerau i wneud gorchmynion, ynghyd â'r weithdrefn graffu sydd ynghlwm wrth bob un.

**42.** Yn ei llythyr dyddiedig 11 Medi 2023, dywedodd y Gweinidog wrthym fod y Bil yn cynnwys 59 o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a saith pŵer i wneud gorchmynion. Dywedodd y Gweinidog fod yna hefyd 14 o bwerau i wneud cyfarwyddydau.[42]

**43.** O blith yr 80 o bwerau a restrodd y Gweinidog yn ei llythyr, dywedodd fod:

- 14 yn bwerau Harri VIII,
- 10 yn bwerau a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol,
- 49 yn bwerau a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol,
- 1 pŵer (sydd wedi ei gynnwys yn adran 141(2)) a fydd yn ddarostyngedig i naill ai'r weithdrefn gadarnhaol neu negyddol, gan ddibynnu a yw'r pŵer yn cael ei ddefnyddio i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, a
- 21 yn bwerau nad ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn.

**44.** Pan roddodd y Gweinidog dystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, disgrifiodd y Bil fel 'Bil manylder' (*headline Bill*). Fe

[41] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023, ymateb i gwestiwn 9
[42] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 4

wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro'r disgrifiad hwn a gofyn beth yw'r gwahaniaethau rhwng Bil manylder a Bil fframwaith. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"A framework Bill is traditionally one where there is very little policy in detail on the face of the Bill, with wide executive powers—Henry VIII powers, typically—which can be used in a wide variety of ways, typically with no further scrutiny. This is a headline Bill, because it sets out a detailed structure of the process and what will be caught by the Bill, and also contains a number of quite narrowly drawn regulation-making powers, which allow appropriate detail to be put in. But all the detail isn't on the face of the Bill. So, I was trying to distinguish between one that broadly just says, 'The Minister can do what they like—please sign here,' and one that sets out quite a detailed set of processes and constrains the executive power therein, but doesn't contain the whole thing on the face of the Bill…".*[43]

**45.** Ychwanegodd y Gweinidog fod rhesymau da iawn dros beidio â nodi pethau manwl iawn, a all fod yn weinyddol ar wyneb y Bil, a dywedodd ei bod yn sicr yn awyddus i rywun sy'n darllen y Bil o'i ddechrau i'w ddiwedd allu deall y broses ar gyfer edrych ar eu cais.[44]

**46.** Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd ganddi unrhyw bryderon y bydd nifer y pwerau dirprwyedig sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn golygu y gallai'r gyfraith yn y maes hwn ddod yn fwy anhygyrch na phe bai mwy o wybodaeth yn cael ei chynnwys ar wyneb y Bil. Dywedodd:

> *"… what I've tried to do, as I say, is strike the balance between having a Bill that's manageable, understandable and accessible, so that you can understand the process, and one that's flexible enough not to need primary legislation to amend it in two or three years' time…*
>
> *… we're trying to get the balance between a Bill that has all of the appropriate scrutiny from its committees in it, that has regulation-making powers that have the right balance of affirmative processes in it, where we think that the Senedd will*

[43] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [94]
[44] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [97]

*have a view as to what should be contained within the regulation-making powers…".*[45]

**47.** O ran hygyrchedd yn ehangach, dywedodd y Gweinidog wrthym fod yr iaith a ddefnyddir yn y Bil wedi'i drafftio gyda hygyrchedd mewn golwg, ac y bydd y broses o ddrafftio'r Bil yn sicrhau nad yw'r system gynllunio bresennol a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig yn cael eu heffeithio i raddau helaeth. Ychwanegodd y Gweinidog:

> *"Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau canlyniadol i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn sicrhau aliniad o fewn maes cynllunio a seilwaith. Ni ellir defnyddio'r pwerau addasu canlyniadol hyn yn eang ac maent yn gyfyngedig. Ni ellir ei ddefnyddio i wneud unrhyw beth sy'n groes i ddarpariaethau'r Bil y bydd y Senedd wedi eu hystyried a'u cymeradwyo."*[46]

**48.** Mae'r Bil yn cynnwys 14 o bwerau Harri VIII. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Gweinidog yn datgan mai'r rhesymeg dros lawer o'r pwerau hyn yw y bydd angen addasu rhai materion yn amlach nag y byddai'n synhwyrol i'r Senedd ddeddfu.[47] Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pam yr oedd yn ystyried ei bod yn briodol i'r Bil roi'r pwerau hyn i Lywodraeth Cymru benderfynu pa mor aml y dylai'r Senedd newid y ddeddfwriaeth yn y maes hwn, a pha ystyriaeth a roddodd i hynny. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y mater hwn yn un anodd iawn. Dywedodd:

> *"… if you think about one of the powers that we have: we want to be able to disapply some parts of the process to a particular application. Well, that's because the process can be quite onerous, and we might want to help somebody that every one of us in this room would think requires assistance through the process. So, I might want to assist a community energy development, for example, by taking out some parts of the process that are particularly onerous or expensive. It's impossible to say, though, unless we do that by regulation, how*

[45] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [99] a [100]
[46] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023, ymateb i gwestiwn 11
[47] Gweler er enghraifft, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 18 i 21 mewn perthynas ag adrannau 17(1)(a), 17(1)(b) a 21(1)(a).

> *that might work. I would genuinely not be able to do that on the face of the Bill."*[48]

**49.** Mae adrannau 56(6) a 129(2) o'r Bil yn cynnwys pwerau Harri VIII a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol 'gwnaed'. Mae adrannau 24(1), 56(2), 60(6), 87 a 128(1) yn cynnwys pwerau Harri VIII nad oes angen gweithdrefn graffu arnynt yn y Senedd. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut mae'r dewis o weithdrefn ym mhob un o'r achosion hyn yn caniatáu mesurau diogelu digonol a gorolwg gan y Senedd. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn llwyr ddeall bod yn rhaid i hyn gynnwys mesurau i ddiogelu'r gyfraith ni waeth pwy yw Gweinidog y dydd, a dywedodd ei bod yn deall bod ein cwestiynau yn deillio o'n hamcan i atal Gweinidog a fyddai'n benderfynol o wthio'r pŵer i'r eithaf rhag gallu gwneud hynny.[49]

**50.** Ceir sylwadau pellach ar bob un o'r pwerau hyn ym Mhennod 4.

## Y rhyngweithio â darnau eraill o ddeddfwriaeth

**51.** Cyflwynwyd y Bil i'r Senedd ar yr un pryd ag yr oedd hynt Bil Ynni Llywodraeth y DU yn dod i ben yn Senedd y DU. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog i ba raddau y mae'r Bil a pholisi ehangach Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio â'r Bil Ynni neu'n cael eu heffeithio gan y Bil Ynni. Dywedodd y Gweinidog:

> *"Broadly, the UK Energy Bill and our policies are aligned. There are a couple of areas where we're not quite aligned, but the broad thrust of it is the same. The reason we weren't keen on the [Energy] Bill itself is because of the issues around consent or consult. So, they've put, as a result of a conversation we've had subsequent to the LCM being refused by the Senedd, having another conversation with the Minister—. And they were at great pains to put a kind of consultation plus thing in, where they have to formally show what notice they've taken of our consultation, because I was very concerned that they wouldn't say, 'We've consulted them and now we're going to do the thing we were going to do anyway.' So, they've now got a formal report-back mechanism, where they have to say what our response to the consultation was and how and whether they took it into account and so on. So, we've had some robust*

[48] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [103]
[49] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [105]

*discussions since then. But, broadly, the policy thrust is the same."*[50]

**52.** Wrth inni ofyn a oedd y Biliau ill dau yn cyd-fynd yn effeithiol, dywedodd y Gweinidog:

*"Yes. If we could get the legislative competence thing sorted out, they would fit together even better."*[51]

**53.** Wrth graffu ar y Bil, roeddem yn ymwybodol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bil Cydgrynhoi ym maes cynllunio yn ystod y Chweched Senedd. Wrth drafod hyn, dywedodd y Gweinidog wrthym:

*"… nid oes unrhyw fwriad i gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol pellach ym maes cynllunio yn nhymor y Senedd hon ac eithrio'r Bil Cydgrynhoi. Bydd y Bil Cydgrynhoi Cynllunio yn dwyn ynghyd ddarpariaethau o'r darnau lluosog o ddeddfwriaeth sy'n nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cynllunio yng Nghymru ar hyn o bryd. Y gobaith yw y bydd hyn yn galluogi pobl sy'n defnyddio'r system gynllunio yng Nghymru i gyfeirio at un ddeddf gyfangwbl ddwyieithog sy'n cynnwys yr holl gyfraith berthnasol. Rhagwelir y bydd y Bil Cydgrynhoi Cynllunio yn cael ei gyflwyno i'r Senedd yn ystod 2024. (…)*

*Bydd y Bil Cydgrynhoi Cynllunio yn ymgorffori unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth ehangach a wneir gan y Bil hwn sydd o fewn cwmpas y prosiect cydgrynhoi."*[52]

## Ein barn ni

**54.** Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad yn ystod hanner cyntaf 2018 ar ei newidiadau arfaethedig i'r broses cydsynio seilwaith yng Nghymru. Mae cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion deddfwriaethol i'w groesawu. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw bwlch o bum mlynedd rhwng yr ymgynghoriad a chyflwyno'r Bil yn adlewyrchu arfer gorau

[50] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [36]. Gweler hefyd Lythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd 27 Hydref 2023 a Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023, ymateb i gwestiwn 13.
[51] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [38]
[52] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023, ymatebion i gwestiynau 10 ac 11

**55.** Rydym yn cydnabod tystiolaeth y Gweinidog ynghylch y cydbwysedd rhwng y manylion ar wyneb y Bil a'r hyn a adewir i is-ddeddfwriaeth.

**Casgliad 2.** Rydym yn derbyn y gallai fod yn ddiangen cael gwybodaeth benodol ar wyneb Bil, ac y gallai wneud y darn o ddeddfwriaeth sylfaenol yn anhylaw. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso hynny â'r mater o sicrhau bod gan bobl ddealltwriaeth eang o'r hyn a ddisgwylir ganddynt yn sgil cyfraith newydd. Nid ydym wedi ein darbwyllo bod y cydbwysedd yn iawn o fewn y Bil hwn.

**56.** Er ein bod yn cydnabod rhesymeg y Gweinidog nad yw'n briodol, o bosibl, i nodi materion gweinyddol manwl iawn ar wyneb y Bil, nid ydym wedi'n darbwyllo y gallai person â buddiant perthnasol ddarllen y Bil a deall yn llawn y prosesau sy'n ymwneud â phrosiect seilwaith sylweddol.

**57.** Mewn sawl man drwy'r Bil cyfan, mae cyfeiriadau at faterion penodol sy'n cael eu pennu mewn rheoliadau: er enghraifft, personau,[53] gofynion,[54] swyddogaethau,[55] datblygiad o fath,[56] gwybodaeth,[57] camau o fath,[58] gweithrediad o fath,[59] gweithgaredd o fath,[60] a "pethau".[61] Er hynny, mae'n ymddangos bod rhywfaint o'r wybodaeth hon eisoes yn hysbys, o ystyried yr ymatebion a roddodd y Gweinidog inni mewn gohebiaeth ac yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, ac felly byddai'n rhesymol disgwyl i'r wybodaeth honno ymddangos ar wyneb y Bil.

**58.** Fel y dangoswyd gan dystiolaeth y Gweinidog a'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, rydym yn credu y gellid ychwanegu rhagor o fanylion at y Bil heb ei wneud yn feichus i'w ddarllen, yn enwedig pan fo'r Gweinidog yn cymryd pwerau dirprwyedig drwy'r Bil i osod gofynion neu swyddogaethau, sydd eto i'w cadarnhau, ar bersonau anhysbys.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog adolygu'r Bil a rhoi ar ei wyneb wybodaeth sydd eisoes yn hysbys, er enghraifft, am y gofynion sydd ar bobl neu swyddogaethau y mae'n rhaid i bobl eu cyflawni, a phwy yw'r bobl hynny, fel bod gwell cydbwysedd rhwng yr hyn y gofynnir i'r Senedd ei gymeradwyo, a pha fanylion a geir yn y Ddeddf o ganlyniad, a beth a adewir i is-ddeddfwriaeth.

[53] Er enghraifft, adran 33
[54] Er enghraifft, adran 34
[55] Er enghraifft, adran 45
[56] Er enghraifft, adran 52
[57] Er enghraifft, adran 88
[58] Gweler adran 91
[59] Gweler adran 92
[60] Gweler adran 115
[61] Gweler adran 127

**59.** Wrth wneud argymhelliad 3, rydym yn cydnabod y gallai fod angen diwygio manylion o'r fath ar wyneb y Bil wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg. Yn y sefyllfaoedd hyn y gallai pŵer i ddiwygio manylion o'r fath fod yn briodol. Yn unol ag egwyddorion seneddol hirsefydlog, dylai unrhyw bŵer i ddiwygio wyneb deddfwriaeth sylfaenol fod yn destun craffu seneddol ac, felly, dylai'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft fod yn gymwys i unrhyw bŵer i wneud rheoliadau o'r fath. Yn ogystal, efallai y bydd amgylchiadau pan fydd yn briodol ychwanegu at faterion ychwanegol drwy reoliadau, dull y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddilyn yn adran 110(8).

**60.** Rydym yn amlygu enghreifftiau penodol lle y gellid ychwanegu mwy o fanylion at wyneb y Bil ym Mhennod 4.

**61.** Ni ellir peidio â nodi'r ffaith bod y Bil yn dirprwyo tuag 80 o bwerau i Weinidogion Cymru. Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r Bil, bydd hyn yn golygu dirprwyo pŵer sylweddol gan y ddeddfwrfa i'r weithrediaeth.

**62.** Yn anffodus, nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y data a ddarparwyd gan y Gweinidog yn ei llythyr atom ar 11 Medi 2023 ynghylch nifer a math y pwerau dirprwyedig sydd yn y Bil. Gwnaed y cais am y wybodaeth hon ar ôl i ni ganfod bod angen egluro'r wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol. Mae nifer y pwerau dirprwyedig yn y Bil yn parhau i fod yn aneglur i ni. Mae'n ymddangos i ni y gallai'r tablau gwybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i gwestiwn 4 yn y llythyr dyddiedig 11 Medi beri dryswch o ran a yw adran yn cynnwys un pŵer i wneud rheoliadau neu fwy nag un pŵer o'r fath.

**63.** Er enghraifft, mae'r cofnodion yn Nhabl 1 yn nodi fel a ganlyn:

| Pŵer i wneud rheoliadau | A yw'n bŵer Harri VIII? I/N | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| Adran 37(2) a (3) | N | Negyddol |
| Adran 125(6) a (7) | N | Negyddol |
| Adran 127 | N | Negyddol |

**64.** Rydym yn credu bod y Gweinidog yn nodi bod adran 37 yn cynnwys dau bŵer i wneud rheoliadau, yn is-adrannau (2) a (3), ac yn yr un modd bod adran 125 yn cynnwys dau bŵer yn adrannau (6) a (7). Fodd bynnag, mae'r cofnod mewn perthynas ag adran 127 yn awgrymu bod un pŵer i wneud rheoliadau yn yr adran honno, ond credwn y gallai fod dau, yn is-adran (2)(c) ac yn is-adran (4).

**Casgliad 3.** Mae'r Gweinidog yn gofyn i'r Senedd ddirprwyo nifer fawr iawn o bwerau i'w harfer gan y weithrediaeth, a dylai'r Senedd wybod yr union beth yw eu nifer, eu lleoliad a'u math.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog ddarparu i'r Senedd restr glir, lawn a manwl o'r holl bwerau dirprwyedig yn y Bil, gan gyfeirio at eu lleoliad, eu math a'r weithdrefn graffu benodol ar eu cyfer.

**65.** Mae'r ffaith bod y Gweinidog wedi nodi 14 o'r pwerau dirprwyedig hyn - bron i un o bob pump - i fod yn bwerau Harri VIII, sy'n caniatáu i'r Bil (os a phan ddaw'n ddeddf) gael ei newid gan Weinidogion Cymru, hefyd yn bwynt arwyddocaol y mae'n rhaid tynnu sylw ato.

**66.** Rydym yn derbyn y gall fod yn briodol cynnwys pwerau Harri VIII mewn deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, yn ein barn ni, rhaid i'r broses o arfer y pwerau hynny gan Weinidogion gael ei goruchwylio'n briodol gan y ddeddfwrfa.

**67.** Mae gennym bryderon y gallai pump o'r 14 o'r pwerau Harri VIII yn y Bil (os daw'n ddeddf) gael eu harfer gan Lywodraeth Cymru heb i'r Senedd wybod bod y gyfraith a gymeradwywyd ganddi wedi'i haddasu.

**68.** Mewn rhai achosion, mae pwerau i wneud cyfarwyddydau yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid effaith darpariaethau'r Bil, a fydd wedi'u cymeradwyo gan y Senedd. Er enghraifft, mae adran 128 o'r Bil yn caniatáu rheoliadau i ddarparu pŵer i wneud cyfarwyddydau i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso gofynion a osodir gan y Bil, o dan amgylchiadau sydd i'w pennu yn y rheoliadau hynny.

**69.** Rydym yn ystyried bod gwahaniaeth pwysig rhwng craffu ar ddeddfwriaeth, a gallu Gweinidogion Cymru, ac awdurdodau eraill, i weithio gydag ymreolaeth o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth honno. Rôl y Senedd yw craffu ar ddeddfwriaeth, gan gynnwys ym maes cynllunio. Mater i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedyn yw penderfynu sut i ymdrin â cheisiadau o fewn y ffiniau a gaiff eu pennu gan y Bil ac, os daw'n ddeddf, y Senedd sydd i benderfynu. Mae rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud cyfarwyddyd, a all wneud y gwahaniaeth yma'n annelwig, yn broblematig.

**70.** Mae potensial i Weinidogion Cymru newid y modd y caiff y Bil ei gymhwyso o dan amgylchiadau penodol, na fyddai'r Senedd wedi'u hystyried nac wedi cydsynio iddynt. Pe bai'r pwerau hyn i wneud cyfarwyddydau yn fwy penodol, ac yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd ac amgylchiadau penodol lle y gellid gwneud cyfarwyddydau o'r fath, gallai hyn ganiatáu i'r Senedd ddeall a chydsynio i'r

amgylchiadau hyn fel rhan o'r broses o graffu ar y Bil ac yn y pen draw ei basio'n gyfraith.

**Casgliad 4.** Nid ydym o'r farn bod y Bil fel y'i drafftiwyd yn cyfyngu ar y pŵer gweithredol i'r graddau ag y dylai o fewn rhai darpariaethau ac fel yr awgrymwyd gan y Gweinidog.

**Casgliad 5.** O ran dirprwyo pwerau yn gyffredinol, nid ydym yn ystyried bod y Bil fel y'i cyflwynwyd mor glir ag y gallai fod.

**71.** Rydym yn trafod y pwerau unigol i wneud cyfarwyddydau ym Mhennod nesaf yr adroddiad.

**Casgliad 6.** Mae gennym rai pryderon y gallai'r pwerau helaeth sy'n cael eu dirprwyo yn y Bil amharu ar nod y Gweinidog o gael 'siop-un-stop' ac na fydd yn rhoi lefel briodol o eglurder i'r sawl sy'n darllen y Bil fel rhan o'r broses ymgeisio.

**72.** Wrth gasglu tystiolaeth, bu'n rhaid inni ofyn am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog mewn perthynas â'r cyfiawnhad dros ddefnyddio gweithdrefnau craffu sy'n gysylltiedig â phwerau dirprwyedig.

**Casgliad 7.** Rydym yn atgoffa Llywodraeth Cymru y dylai deunyddiau esboniadol sy'n cyd-fynd â Biliau ddarparu cyfiawnhad llawn a digonol dros gymryd pwerau dirprwyedig a'r weithdrefn sydd ynghlwm wrthynt.

**73.** Nid ydym ychwaith yn ystyried ei bod yn briodol defnyddio Bil fel cyfrwng i osgoi Bil yn y dyfodol lle byddai defnyddio deddfwriaeth sylfaenol yn ddull cyfansoddiadol briodol. Rydym wedi gwneud sylwadau dro ar ôl tro ynglŷn â'r cyfiawnhad o 'sicrhau bod y Bil yn addas at y dyfodol' a gyflwynir yn aml gan Weinidogion Cymru. Yn ein barn ni, mae cynnwys llawer o bwerau i wneud rheoliadau er mwyn 'sicrhau bod y Bil yn addas at y dyfodol' yn tynnu pwerau oddi wrth Seneddau'r dyfodol ac nid yw'n arfer derbyniol.

**74.** Byddem hefyd yn hoffi atgoffa'r Gweinidog nad mater i Lywodraeth Cymru yw awgrymu neu ragweld lle mae'r Senedd yn debygol o fod â barn ar fater penodol. Y cwestiwn pennaf bob amser ddylai fod a yw'r weithdrefn a ddefnyddir yn briodol ac yn gallu cael ei chyfiawnhau.

**75.** Mae ein sylwadau uchod yn nodi y byddai dull gwahanol o lunio'r Bil, gyda mwy o fanylion ar ei wyneb, yn gwneud y Bil yn fwy hygyrch. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch pam na fanteisiwyd ar y cyfle i ddefnyddio adrannau trosolwg yn y Bil, yn enwedig ar gyfer Rhannau 1 i 7, i ddisgrifio'r hyn y mae pob rhan yn ceisio ei gyflawni a sut y maent yn berthnasol i'w gilydd. Credwn y byddai hyn o

gymorth i'r darllenydd ac yn rhoi darlun cliriach a mwy hygyrch o'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio ei gyflawni.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog egluro pam nad yw'r Bil yn cynnwys adrannau trosolwg, yn enwedig ar gyfer Rhannau 1 i 7, i ddisgrifio'r hyn y mae pob rhan yn ceisio ei gyflawni a sut y maent yn berthnasol i'w gilydd.

**76.** Rydym hefyd yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog am Fil Cydgrynhoi arfaethedig sy'n ymwneud â chynllunio, ac yn croesawu'r cadarnhad y disgwylir iddo gael ei gyflwyno i'r Senedd yn ystod 2024.

**77.** Mae archwiliad manwl pellach o ddarpariaethau penodol y Bil, a'r pwerau dirprwyedig sydd wedi eu cynnwys yn y darpariaethau hynny, yn dilyn yn y Bennod nesaf.

# 4. Sylwadau penodol ar Rannau ac adrannau penodol o'r Bil

**78.** Mae'r Bil yn cynnwys 144 o adrannau a thair Atodlen. Mae wedi'i rannu'n naw Rhan.

**79.** Rydym eisoes wedi gwneud sylwadau ym Mhennod 3 o'r adroddiad ar y nifer sylweddol o bwerau dirprwyedig yn y Bil.

**80.** Mae'r sylwadau a ganlyn yn canolbwyntio ar adrannau penodol o'r Bil a phwerau dirprwyedig o fewn yr adrannau hynny yr ydym yn dymuno eu hamlygu, a thrwy hynny, dynnu sylw'r Senedd atynt.

## Rhan 1 o'r Bil: Prosiectau seilwaith arwyddocaol

**81.** Mae Rhan 1 o'r Bil yn nodi'r mathau o ddatblygiadau a allai, at ddibenion y Bil, fod yn brosiectau seilwaith arwyddocaol. Daw'r datblygiadau o dan y categorïau a ganlyn: ynni, trafnidiaeth, dŵr, dŵr gwastraff, a gwastraff.

**82.** Mae adran 17 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy bŵer Harri VIII, i wneud rheoliadau a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, i ychwanegu, amrywio neu ddileu mathau o brosiectau seilwaith arwyddocaol.

**83.** Yn ogystal â'r meysydd (neu fathau) o ddatblygiadau sydd wedi'u categoreiddio ar wyneb y Bil yn adrannau 2 i 16, mae adran 17(4) hefyd yn rhestru prosiectau sy'n ymwneud ag atal llifogydd a mwynau fel mathau o brosiectau y gellir eu hychwanegu at gwmpas y Bil drwy'r pŵer i wneud rheoliadau yn is-adran (1) o adran 17.

**84.** Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi naratif neu resymeg glir ynghylch pam mae atal llifogydd a mwynau wedi'u rhestru fel mathau o brosiectau yn adran 17(4).

### Ein barn ni

**85.** Nid yw'n glir inni pam nad oes unrhyw wybodaeth am brosiectau seilwaith arwyddocaol sy'n ymwneud ag atal llifogydd a mwynau yn ymddangos ar wyneb y Bil fel y mae ar gyfer y prosiectau seilwaith eraill a restrir yn adran 17(4).

**86.** Fel y mae pethau ar hyn o bryd, manylir ar ddatblygiadau sy'n dod o dan bennawd y categorïau ynni, trafnidiaeth, dŵr, dŵr gwastraff, a gwastraff ar wyneb

y Bil a thrwy ddeddfwriaeth sylfaenol, tra bod y datblygiadau sy'n ymwneud ag atal llifogydd a mwynau i'w nodi mewn is-ddeddfwriaeth.

**87.** Mae hefyd yn aneglur inni felly beth yw'r cyfiawnhad dros gynnwys atal llifogydd a mwynau (yn adran 17(4)(b) ac (c) yn y drefn honno) fel mathau o brosiectau y gellir eu hychwanegu at gwmpas y Bil (os a phan ddaw'n ddeddf) drwy is-ddeddfwriaeth. Nid yw'r gwahaniaeth yn y dull yn ymddangos yn briodol nac yn dderbyniol.

**88.** Rydym yn nodi, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith fod NFU Cymru wedi dweud y byddai mwy o eglurder pe bai darpariaeth yn cael ei chynnwys yn y Bil i ddiffinio'r meini prawf ar gyfer y math o ddatblygiad a fyddai'n dod o dan y meysydd hyn ac, yn absenoldeb paramedrau wedi'u diffinio, awgryma mai dim ond ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid y dylid defnyddio pŵer adran 17.[62]

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog

- ddarparu eglurder a chyfiawnhad manwl dros gynnwys atal llifogydd a mwynau (yn adran 17(4)(b) ac (c) yn y drefn honno) fel mathau o brosiectau y gellir eu hychwanegu at gwmpas y Bil (os a phan ddaw'n ddeddf) drwy is-ddeddfwriaeth;
- esbonio pam na chafodd meini prawf ar gyfer y math o ddatblygiad a fyddai'n dod o dan feysydd atal llifogydd a mwynau eu cynnwys ar wyneb y Bil wrth ei gyflwyno.

**Argymhelliad 7.** Fel yr awgrymwyd gan randdeiliaid, er mwyn galluogi ymgynghoriad cyhoeddus, dylai'r Gweinidog ystyried defnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol wrth wneud rheoliadau o dan adran 17(1) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â'r meysydd atal llifogydd a mwynau.

**89.** Rydym yn trafod adran 17 o'r Bil ymhellach yn adran nesaf y Bennod, a sut y mae'n cysylltu ag adran 22.

[62] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Bil Seilwaith (Cymru), Tystiolaeth gan NFU Cymru

## Rhan 2 o'r Bil: Gofyniad am gydsyniad seilwaith

**90.** Mae Rhan 2 o'r Bil yn gosod gofyniad am gydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad sy'n rhan o brosiect seilwaith arwyddocaol neu sy'n rhan o ddatblygiad o'r fath, a'r effaith ar gyfundrefnau statudol eraill.

**91.** Mae adran 22 o'r Bil yn ymdrin â chyfarwyddydau sy'n nodi datblygiad i fod yn brosiect seilwaith arwyddocaol. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau diben y cyfarwyddyd a'r pwerau i wneud rheoliadau sydd yn adran 22 o'r Bil, a pham fod eu hangen.

**92.** Dywedodd y Gweinidog wrthym, ar gyfer rhai mathau o brosiectau seilwaith arwyddocaol, efallai na fydd trothwy meintiol gorfodol syml yn ddigonol i bennu a yw prosiect mor arwyddocaol a chymhleth fel y gellir cyfiawnhau defnyddio proses gydsynio unedig ar ei gyfer. Gan hynny, dywedodd y Gweinidog, pan fo datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol i Gymru, y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i nodi bod datblygiad arfaethedig yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol a rhoddodd ddwy enghraifft: pan fydd y prosiect yn dod o dan feini prawf gorfodol a phan fo'r prosiect yn cynnwys technoleg newydd neu amgylchiadau newydd.[63]

**93.** Fe wnaethom nodi hefyd fod pŵer ar wahân i ychwanegu, amrywio neu ddileu prosiectau seilwaith arwyddocaol yn adran 17 o'r Bil. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pam y bydd angen y pwerau yn adran 22, o gofio bod y pwerau yn adran 17 hefyd yn cael eu darparu i Weinidogion Cymru. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"Mae cwmpas y pwerau gwneud rheoliadau yn adran 17 ac adran 22 yn wahanol. Mae is-adran 22(2)(c) yn cyfyngu ar bŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd ac fe'i hesbonnir uchod. Mae adran 17 yn caniatáu i is-ddeddfwriaeth newid wyneb y Bil er mwyn ychwanegu prosiectau a gaiff eu hystyried yn Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol yn awtomatig. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.*
>
> *Mae Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys prosiectau lle mae tystiolaeth y byddant yn arwyddocaol yn genedlaethol. Mae'n bosibl y daw tystiolaeth newydd i'r amlwg y dylid cynnwys mathau gwahanol o brosiect neu y dylid diwygio un o drothwyon y*

[63] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 7

> *prosiectau presennol. Mae adran 17 yn darparu'r pŵer hwn i wneud y newid hwn."*[64]

**94.** Mae adran 24 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd sy'n pennu nad yw datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

**95.** Fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae'r pŵer i wneud cyfarwyddydau yn adran 24(1) yn bŵer Harri VIII ac felly nid oes angen gweithdrefn graffu arno yn y Senedd.

**96.** Mae is-adran (3) o adran 24 yn cyfyngu'r pwerau i wneud cyfarwyddydau i ddatblygiadau a fydd (pan fyddant wedi'u cwblhau) yn rhannol yng Nghymru neu ardal forol Cymru.

## Ein barn ni

**97.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas â Rhan 2 o'r Bil.

**98.** O ran adran 22 o'r Bil, er ein bod yn nodi rhesymeg y Gweinidog ynghylch pam mae angen y pŵer yn adran 22 yn ychwanegol at y pŵer yn adran 17, nid ydym wedi ein hargyhoeddi eto a byddem yn croesawu rhagor o eglurder.

**99.** Rhoddodd y Gweinidog enghraifft inni o brosiect seilwaith arwyddocaol newydd yn cynnwys technoleg newydd neu amgylchiad newydd fel rhywbeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer yn adran 22. Fodd bynnag, nid yw'n glir inni pam na fyddai'r pŵer yn adran 17 yn cael ei ddefnyddio i gynnwys materion o'r fath.

**100.** Credwn fod angen rhagor o eglurder ar y mater hwn er mwyn i'r Senedd fod yn fodlon nad yw'n dirprwyo pŵer diangen i'r weithrediaeth.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion a rhesymau ychwanegol ynghylch pam y mae angen y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 22 yn ychwanegol at y pŵer yn adran 17.

**Argymhelliad 9.** Yn ogystal ag argymhelliad 8, dylai'r Gweinidog egluro'r canlyniadau pe bai adran 22 yn cael ei dileu o'r Bil, a beth fyddai'r Gweinidog yn cael ei atal rhag ei wneud na ellid ei gyflawni gydag adran 17.

**101.** Yn benodol o ran y pŵer Harri VIII i wneud cyfarwyddydau heb weithdrefn yn adran 24(1), mae'r rhesymeg dros ddull y Gweinidog o ymdrin â'r pŵer i wneud cyfarwyddydau yn parhau i fod yn aneglur i ni. Er ein bod yn nodi bod adran 24(3) yn cynnwys rhai manylion ynghylch yr hyn y gall cyfarwyddyd ei wneud, mae'n

[64] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 7

bwysig bod y Senedd yn ymwybodol o baramedrau pŵer Gweinidogol i wneud cyfarwyddydau ac yn eu cymeradwyo.

**Argymhelliad 10.** Dylid diwygio adran 24 i gynnwys manylion yr hyn y gall cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (1) ei gynnwys. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n galluogi diwygio'r rhestr hon.

**Argymhelliad 11.** Dylid diwygio adran 24 i'w gwneud yn ofynnol bod cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (1) yn cael ei osod gerbron y Senedd, a bod datganiad i gyd-fynd ag ef i holl Aelodau'r Senedd.

## Rhan 3 o'r Bil: Gwneud cais am gydsyniad seilwaith

**102.** Mae Rhan 3 o'r Bil yn nodi'r weithdrefn cyn ymgeisio, sut y dylid gwneud cais am gydsyniad seilwaith i Weinidogion Cymru, a'r gofynion ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysu. Mae hefyd yn nodi gweithdrefnau sy'n ymwneud â chaffael tir yn orfodol, a hynny fel rhan o gydsyniad seilwaith.

**103.** Mae adran 29 o'r Bil yn ymwneud â gweithdrefnau cyn ymgeisio. O ran adran 29(5), yn y Memorandwm Esboniadol mae'r Gweinidog yn datgan y gallai materion sy'n ymwneud â hysbysiad "fod yn destun newid yn y dyfodol er mwyn bod o fudd i'r broses gydsynio".[65] Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro sut y gellir dweud bod newidiadau yn y dyfodol, nad ydynt yn hysbys eto, o fudd i'r broses gydsynio. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"So, the one that comes to mind is the local newspaper. So, at the moment, you'd have to advertise in a local newspaper. Well, very tragically, many places don't have a local newspaper, and it's very likely that in the future it may be actually impossible to do that, so it would allow you to do so electronically, or you might even be specifying that you need to do it on an app that most people have access to. There's one called Nextdoor that I'm familiar with, for example. I'm sure all of you have got them as well. It might actually be better to specify that you advertise in an electronic format of that sort; you'd likely reach more people than, sadly, a local newspaper. So, it's that kind of thing that we're thinking of. Or, again, some widget that nobody has ever heard of yet appears, and everybody uses it, and our regulations say that you've got to use the local newspaper. So,*

[65] Memorandwm Esboniadol, tudalen 24

*it's trying to adapt to future changes of that sort. So, what it does is it specifies that you have to have a notification, that it has to have some content, that it has to be accompanied by various things, but what it doesn't tell you is how to do the notification, because that's the thing we think will very likely need futureproofing. So, it's trying to hit that balance, really. (…)*

*So, the Bill—and the committee may have a view on this—sets out what we think a notification absolutely should have, and then it leaves the regulations to tell you exactly how that might be."*[66]

**104.** Mae adran 30 o'r Bil yn ymdrin â'r mater o ymgynghori a'r weithdrefn cyn ymgeisio. O ran adran 30(2) a (3), mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer dirprwyedig, yn nodi y bydd y gofynion a nodir yn y rheoliadau yn darparu ar gyfer "lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil".[67] Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn disgrifio'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio fel "mân fater gweithdrefnol".[68] Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro ymhellach beth mae hyn yn ei olygu, a dywedodd:

*"Rhagwelwn y bydd y gofynion sylfaenol yn cynnwys materion gweithdrefnol megis arddangos hysbysiadau safle a chyhoeddi hysbysiad am gais mewn papur newydd sydd mewn cylchrediad yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, bydd angen i fanylion penodol a sylweddol fod ynghlwm wrth y materion hyn, megis yr hyn y bydd angen ei gynnwys mewn hysbysiad, ble mae'n rhaid eu harddangos ac am ba hyd. Er enghraifft, rhagwelwn ei bod yn debygol y bydd angen gofynion gwahanol o ran arddangos hysbysiadau safle ar gyfer llwybrau llinol (megis llinellau trydan neu reilffyrdd), o gymharu â datblygiadau ar safle â ffiniau pendant.*

*Mae hefyd angen inni ystyried unrhyw drefniadau amgen ar gyfer datblygiadau yn rhanbarth y glannau, lle na fyddai gofynion arfaethedig ar gyfer gwaith datblygu ar dir yn addas nac yn ymarferol. Er enghraifft, ni fyddai'n bosibl nac yn fuddiol arddangos hysbysiad safle o dan yr amgylchiadau hyn.*

[66] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [129] a [131]
[67] Memorandwm Esboniadol, tudalen 25
[68] Memorandwm Esboniadol, tudalen 25

> *Bydd y rheoliadau yn rhoi manylion sylweddol am unrhyw ofynion sylfaenol ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio. Byddai eu cynnwys ar wyneb y Bil yn ei wneud yn feichus i'w ddarllen. At hynny, bydd materion yn nodi gofynion gweithdrefnol, gan gynnwys gweithdrefnau gwahanol ar gyfer datblygiadau ar y tir ac yn rhanbarth y glannau, yn ogystal â'r hyblygrwydd sydd ei angen i addasu'r gofynion hyn ac ymateb i newid. O ystyried hyn, rydym wedi dod i'r casgliad ei bod yn fwy priodol nodi materion penodol a gweithdrefnol o'r fath mewn is-ddeddfwriaeth."*[69]

**105.** Fe wnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog pam mae wedi bod o'r farn mai mater bach yw'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad yw'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio "yn cael ei ystyried yn fân fater yn y broses gydsynio ehangach". Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog fod unrhyw ofynion gweithdrefnol penodol, er enghraifft rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiad mewn papur newydd lleol, yn cael eu hystyried yn fân faterion technegol a gweithdrefnol.[70]

**106.** O ran adran 31(5) sy'n ymwneud â gwneud cais am gydsyniad seilwaith, mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer dirprwyedig, hefyd yn nodi y bydd y rhestr o swyddogaethau posibl yn cyflwyno "lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil". Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a gallant roi swyddogaeth i unrhyw berson, gan gynnwys arfer disgresiwn. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog a allai egluro ymhellach ei hymagwedd tuag at yr adran hon, a'r pŵer sydd yn yr adran. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

> *"Mae'r pŵer yn adran 31(5) o'r Bil yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran (4) gynnwys disgresiwn i ddatgymhwyso gofynion. Bydd y disgresiwn hwn yn helpu i sicrhau na fydd gofynion gweithdrefnol yn creu baich diangen.*
>
> *Y rheswm dros hyn yw bod y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer cael cydsyniad seilwaith yn arbennig o ragnodol ac y cydnabyddir y gallai deddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i bartïon fodloni gofynion a allai fod yn ormodol o dan rai amgylchiadau cyfyngedig. Er enghraifft, bydd rheoliadau a wneir o dan is-adran (4) yn nodi pa wybodaeth arall, pa*

[69] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 8
[70] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 8

*ddogfennau eraill neu ba ddeunyddiau eraill y mae'n rhaid ei chyflwyno (eu cyflwyno) gyda ffurflen gais. Fodd bynnag, ar ôl iddi gael ei dilysu, os bydd y ceisydd yn gweld gwall ar y ffurflen gais nad yw'n cael effaith sylweddol ar y datblygiad arfaethedig (megis cyfeiriad anghywir) a'i bod yn ofynnol i'r ffurflen gais gael ei hailgyflwyno gyda'r manylion cywir, o dan y ddeddfwriaeth byddai'n ofynnol i'r ceisydd ailgyflwyno'r holl ddogfennau ategol hefyd. Byddai'r amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau hefyd yn cyd-fynd â'r dyddiad yr ystyriwyd bod y cais yn un dilys. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi disgresiwn i'w gwneud yn bosibl i fân newidiadau o'r math hwn gael eu gwneud i'r ffurflen gais heb ailddechrau'r broses gwneud cais.*

*Ystyrir bod hwn yn fân fater technegol am fod y pŵer yn adran 31(5) i roi swyddogaethau, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys arfer disgresiwn, wedi'i gyfyngu i reoliadau a wneir o dan yr adran honno. Am fod yr adran hon yn rhagnodi materion sy'n ymwneud yn benodol â'r broses gwneud cais (er enghraifft, sut y dylid gwneud cais, pa wybodaeth a dogfennau ategol y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda chais a'r ffordd y caiff ceisiadau eu dilysu), ystyrir mai mân fater gweithdrefnol a thechnegol ydyw yn y broses gydsynio ehangach.*

*Fodd bynnag, er y bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn Adran 128 hefyd yn rhagnodi manylion, fel y nodir yng nghwestiwn 5, bydd y ddeddfwriaeth, os caiff ei gwneud, yn rhoi pwerau pellach i Weinidogion Cymru. Felly, ystyrir ei bod yn briodol i reoliadau a wneir o dan Adran 128 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.”*[71]

**107.** Mae adran 33(5) o’r Bil yn darparu bod yn rhaid i’r adeg pryd y mae’n rhaid i Weinidogion Cymru gael sylwadau ynghylch cais am gydsyniad seilwaith fod ar ôl diwedd y cyfnod cynrychiolaeth byrraf a bennir mewn rheoliadau. Fe wnaethom ofyn i’r Gweinidog beth yw’r disgwyliad o ran cyfnod i gyflwyno sylwadau, a dywedodd y Gweinidog wrthym, ar hyn o bryd, ei bod yn ystyried ailadrodd y broses datblygu arwyddocâd cenedlaethol, felly dyna 30 diwrnod os oes asesiad o’r effaith amgylcheddol a 21 diwrnod os nad oes asesiad o’r fath.[72]

[71] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 9
[72] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [135]

**108.** Mae adran 34 yn ymdrin â rheoliadau ynghylch hysbysiadau a chyhoeddusrwydd. Mae adran 34(1)(b) yn datgan y caiff rheoliadau osod gofynion ar bersonau a bennir yn y rheoliadau i ymateb i hysbysiad o dan adran 33(2). Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pa ofynion a fydd yn cael eu gosod, ac a oes unrhyw ofynion na ellid eu gosod. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

> *"Disgwylir i'r personau a bennir mewn rheoliadau o dan yr amgylchiadau hyn fod yn ymgyngoreion statudol. Bydd pwy yr ystyrir ei fod yn ymgynghorai statudol yn amrywio fesul achos, yn dibynnu ar y math o ddatblygiad sy'n cael ei gynnig.*
>
> *Gan y bydd gan yr ymgyngoreion hyn wybodaeth ac arbenigedd mewn meysydd penodol, ystyrir bod eu mewnbwn a'u barn ar ddatblygiad arfaethedig yn hanfodol. Felly, pan gaiff ymgynghori statudol ei hysbysu am ddatblygiad arfaethedig, bydd yn ofynnol iddo ymateb i'r hysbysiad ar ffurf ymateb o sylwedd, y bydd yn rhaid ei gyflwyno hefyd i Weinidogion Cymru o fewn cyfnod penodol o amser.*
>
> *Rhagwelir y bydd ymateb o sylwedd yn datgan y canlynol:*
>
> *• Nid oes gan yr ymgynghorai statudol unrhyw sylw i'w wneud;*
>
> *• Nid oes ganddo unrhyw wrthwynebiadau;*
>
> *• Mae ganddo bryderon ynghylch y datblygiad arfaethedig a'r ffordd y gellir ymdrin â'r pryderon hyn; neu*
>
> *• Mae ganddo bryderon ynghylch y datblygiad arfaethedig ac mae'n bwriadu ei wrthwynebu.*
>
> *Dim ond os bydd yn methu o dan un o'r categorïau a nodir yn adran 34(1)(a) i (d) y caiff y Rheoliadau osod gofyniad."*[73]

**109.** Fe wnaethom waith dilynol ar y mater hwn pan ddaeth y Gweinidog i'n cyfarfod ar 25 Medi a gofynnwyd iddi egluro lle mae'r ymgyngoreion statudol wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth. Dywedodd y Gweinidog wrthym :

> *"So, they're going to be set out in the regulations, as I understand it, but there'll be all the list that you're familiar with. So, Natural Resources Wales will be a consultee for absolutely*

[73] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 10

*everything; the Ministry of Defence will be a consultee if there's Ministry of Defence land or some security, just to pick two at random. There'll be other consultees—you know, local authority planning authorities, various other people, depending on where and how the thing is. It's one of the reasons we want Minister of the Crown consents, because we want Natural England, for example, to be one of the listed ones there if there's a cross-border issue on a river, for example. You can think of several cross-border issues where transmission lines might be crossing the border and so on. So, that's one of the reasons we want it. But the idea is to put a list of all of the public bodies—and quasi-public bodies—that might be statutory consultees into the regulations, so that they can be updated. So, if Natural England suddenly changes its name to something else, we can update it."*[74]

**110.** Mae adran 37(2) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu hysbysiad i Weinidogion Cymru sy'n nodi enwau ac unrhyw wybodaeth arall a bennir mewn rheoliadau ar gyfer pob person y mae'r ymgeisydd yn gwybod bod ganddo fuddiant mewn tir y mae cais caffaeliad gorfodol yn ymwneud ag ef. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pa 'wybodaeth arall' y mae'n rhagweld y bydd y ddarpariaeth hon yn ei chasglu. Dywedodd y Gweinidog:

*"The name and address of the person whose land it is, for example, is the obvious one. If you're going for a compulsory purchase order, you'd want to know all of the people with a title in the land. If you were doing some sort of land assembly, for example, you might have several landowners who needed to have their land interests compulsorily acquired, and that might actually include a highway authority as well, or various other people—I mean, who knows with some of the land that we have to deal with. So, it's a list of all of the people affected, I think."*[75]

**111.** Dywedodd swyddog a ddaeth ynghyd â'r Gweinidog:

*"But what we will try and do with all these regulations is group them into a series of grouped regulations. So, if you're dealing with compulsory purchases, you'll be dealing with other procedural matters as well—it won't be just a case of, 'Here's*

[74] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [137]
[75] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [141]

> *one on compulsory purchase, here's one on pre application'. It'll be grouped in a logical way. What we're trying to achieve is that grouping. The regulations will set out in detail anyone who may have an interest in the land. It gets a bit technical when you get into things like agricultural tenancies and things like that. So, there are all sorts of other interests you may have in land—common land and all those sorts of things that are very, very difficult to put on the face of a piece of legislation."*[76]

**112.** Mae adran 37(4) yn diffinio 'person yr effeithir arno' at ddiben yr adran honno. Mae'n datgan bod person yn berson yr effeithir arno os yw'r ymgeisydd ar ôl gwneud ymholiad dyfal yn gwybod bod gan y person fuddiant yn y tir y mae'r cais caffaeliad gorfodol yn ymwneud ag ef. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro beth a olygir wrth ymholi'n ddyfal, a sut y caiff ei brofi. Fe wnaethom hefyd ofyn a yw hwn yn gysyniad sefydledig yn y gyfraith bresennol sy'n ymwneud â gwneud cais am gydsyniad seilwaith a/neu geisiadau caffael gorfodol. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"Ystyr "ymholi'n ddyfal" yw bod yn rhaid i'r ceisydd arfer diwydrwydd rhesymol wrth ymchwilio i fuddiannau mewn tir. Mae ymholi'n ddiwyd yn gysyniad sefydledig ar gyfer geisiadau caffael gorfodol fel y rhagnodir gan Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 a Deddf Caffael Tir 1981. Nodir ei ystyr mewn cyfraith achosion ac mae'n derm sefydledig a ragnodir o dan Ddeddf Cynllunio 2008 fel rhan o'r gyfundrefn ar gyfer penderfynu ar brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol gan Lywodraeth y DU lle y bydd tir yn cael ei gaffael yn orfodol(…)*
>
> *Caiff ymholi'n ddiwyd ei ystyried gan y corff penderfynu wrth asesu a ddylid caniatáu caffael yn orfodol. Caiff ei ystyried fesul achos a'i ategu gan ganllawiau a fydd yn helpu'r ceisydd a'r corff penderfynu. Mae'r canllawiau yn debygol o gynnwys gwybodaeth am ddulliau arfer gorau gan gynnwys ymchwil i wybodaeth am deitl, holiaduron buddiant mewn tir, chwiliadau tŷ'r cwmnïau, arolygiadau safle ac ymchwil ar y we er mwyn helpu i sicrhau bod ymholiad dyfal wedi'i wneud."*[77]

**113.** Mae adran 38 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â hwy mewn perthynas â chaffael gorfodol.

---

[76] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [142]
[77] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 11

Rydym ar ddeall bod is-adran (1) yn cynnwys y pŵer i wneud rheoliadau yn yr adran hon. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro sut y bydd is-adrannau (2) a (3) yn gweithredu ac, yn benodol, gadarnhau bod y cyfeiriad at is-adran (2) yn is-adran (3) yn gywir. Gofynnwyd hefyd o dan ba amgylchiadau na fydd angen ymgynghori.

**114.** Yn ei llythyr atom, dyddiedig 11 Medi, dywedodd y Gweinidog:

> *"Ceir dau bŵer gwahanol i wneud rheoliadau yn Adran 38. Mae is-adran (1) yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisydd gynnal ymgynghoriad os bydd y cais am orchymyn cydsyniad seilwaith yn cynnwys cais i awdurdodi caffael yn orfodol. Mae is-adran 2 yn bŵer gwneud rheoliadau ar wahân sy'n caniatáu i reoliadau nodi'r amgylchiadau pryd y caiff yr ymgynghoriad hwnnw ei gynnal a gwneud darpariaethau eraill mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad. Mae is-adran (3) yn rhoi enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (2). Felly, mae'r cyfeiriad at is-adran (2) yn gywir. (…)*
>
> *Ar yr adeg hon, rhagwelwn mai dim ond os nodir buddiannau ychwanegol mewn tir ar ôl i gais am gydsyniad seilwaith gael ei gyflwyno sy'n cynnwys cais i awdurdodi caffael yn orfodol y byddai angen cynnal ymgynghoriad pellach o dan reoliadau a ragnodir gan Adran 38."*[78]

**115.** Fe wnaethom waith dilynol ar y mater hwn pan ddaeth y Gweinidog i'n cyfarfod ar 25 Medi. Diben ein cwestiynau oedd deall safbwynt y Gweinidog ar y mater hwn, o ystyried mai ein dealltwriaeth ni yw mai dim ond un pŵer i wneud rheoliadau y mae adran 38 yn ei gynnwys, yn is-adran (1). Dywedodd y Gweinidog wrthym bod y Llywodraeth yn credu bod y Pwyllgor yn iawn yn hyn o beth ac y byddai'n ei newid. Dywedodd y Gweinidog fod y drafftio yn llai nag ysblennydd ac y byddai'n cyflwyno gwelliant i fynd i'r afael ag ef.[79]

## Ein barn ni

**116.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas â Rhan 3 o'r Bil.

**117.** O ran adran 31(5) a'r pŵer ynddi i wneud rheoliadau – pŵer y gellir ei ddefnyddio i roi swyddogaeth i unrhyw berson, gan gynnwys arfer disgresiwn –

[78] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 12
[79] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [148]

rydym yn cydnabod barn y Gweinidog ond mae gennym bryderon bod y pŵer hwn yn eang, ac nad yw'r adran ond yn cynnwys ychydig o fanylion ynghylch yr hyn a olyga'r swyddogaethau a roddir.

**Argymhelliad 12.** Dylid diwygio adran 31 o'r Bil fel bod manylion y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-adran (5), y caniateir eu cynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (4), yn cael eu rhestru ar wyneb y Bil. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n galluogi diwygio'r rhestr hon.

**118.** Fe wnaethom geisio casglu rhagor o fanylion gan y Gweinidog am y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 34(1)(b) – pŵer y gellir ei ddefnyddio i osod gofynion ar bersonau a bennir yn y rheoliadau i ymateb i hysbysiad o dan adran 33(2) o'r Bil.

**119.** Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog y "rhagwelir y bydd y personau penodedig yn ymgyngoreion statudol" ac mai ei chynllun yw "rhoi rhestr o'r holl gyrff cyhoeddus—a chyrff lled-gyhoeddus—a allai fod yn ymgyngoreion statudol yn y rheoliadau, felly y gellir eu diweddaru".

**120.** O ystyried bod y Gweinidog wedi cadarnhau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghorai ar gyfer popeth, nid yw'n glir inni pam nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i enwi ar wyneb y Bil. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i bawb sy'n ymwneud â'r weithdrefn ymgeisio, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru.

**121.** Os oes cyrff/personau eraill y mae'r Gweinidog yn gwybod y byddant yn bersonau penodedig at ddiben adran 33, rydym yn credu y dylent hwythau gael eu rhestru ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 13.** Dylid diwygio adran 33(2)(a) o'r Bil i ddatgan bod yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru, ac unrhyw gorff/person hysbys arall, gael hysbysiad o unrhyw gais am gydsyniad seilwaith.

**122.** Hefyd mewn perthynas ag adran 34, rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog y na chaiff rheoliadau a wneir o dan adran 34(1) ond gosod gofyniad os yw'n dod o dan un o'r categorïau a bennir yn adran 34(1)(a) i (d). Rydym yn credu bod angen mwy o eglurder oherwydd nid yw'n glir inni at ba "gategorïau" y mae'r Gweinidog yn cyfeirio, o ystyried bod adran 34(1)(a), (c) a (d) yn darparu ar gyfer materion eraill y gellir mynd i'r afael â hwy mewn rheoliadau ac nad yw'n ymddangos ei fod yn gysylltiedig â pharagraff (b) yn unig, sef y ddarpariaeth sy'n galluogi'r rheoliadau i osod gofynion.

**Argymhelliad 14.** Dylid diwygio adran 34 o'r Bil i ychwanegu manylion y gofynion y caniateir eu gosod, ac ar bwy, drwy reoliadau o dan is-adran (1)(b). Gellir diwygio'r

Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n galluogi diwygio'r rhestr hon.

**123.** Mae adran 34(2) o'r Bil yn galluogi rheoliadau o dan adran 34(1) i roi swyddogaeth, gan gynnwys swyddogaeth lle bo angen arfer disgresiwn, i unrhyw berson. Rydym yn credu y dylai'r swyddogaethau perthnasol y bwriedir eu rhoi gan y ddarpariaeth hon gael eu nodi ar wyneb y Bil. Bydd hyn yn ychwanegu eglurder mawr ei angen i'r darllenydd ynghylch hyd a lled y pŵer i wneud rheoliadau, a'r mathau o swyddogaethau y cyfeirir atynt.

**Argymhelliad 15.** Dylid diwygio adran 34 o'r Bil fel bod manylion y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-adran (2) y gellir eu rhoi drwy reoliadau a wneir o dan is-adran (1) yn cael eu rhestru ar wyneb y Bil. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n golygu y gellid diwygio'r rhestr hon.

**124.** O ran adran 38 o'r Bil, ac fel y gwnaethom ei amlygu ym Mhennod 3, pwrpas ein cwestiynau ar yr adran hon oedd deall rhesymau'r Gweinidog dros ddatgan bod adran 38 yn cynnwys dau bŵer penodol i wneud rheoliadau, a hynny o ystyried ein bod ni o'r farn nad yw ond yn cynnwys un pŵer i wneud rheoliadau, yn is-adran (1). Rydym yn cydnabod sylwadau dilynol y Gweinidog ei bod bellach yn cytuno â'n hasesiad ni o'r pŵer yn adran 38.

**Argymhelliad 16.** Dylai'r Gweinidog egluro'r newid y bydd yn mynd ati i'w wneud i adran 38 o'r Bil, yn unol â'n sylwadau bod yr adran hon yn cynnwys un pŵer i wneud rheoliadau yn is-adran (1). Yn benodol, dylai'r Gweinidog egluro a yw gwelliant yn cael ei gyflwyno i newid y cyfeiriad yn is-adran (3) o fod yn gyfeiriad at 'is-adran (2)' i fod yn gyfeiriad at 'is-adran (1)', neu a fydd angen gwelliant mwy sylweddol i wneud y newidiadau sydd eu hangen i adran 38.

## Rhan 4 o'r Bil: Archwilio ceisiadau

**125.** Mae Rhan 4 o'r Bil yn nodi'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer archwilio ceisiadau am gydsyniad seilwaith.

**126.** Mae adran 39(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dogfen sy'n nodi'r meini prawf sydd i'w dilyn wrth benderfynu a ddylid penodi person neu banel o bersonau o dan adran 39(2). Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog beth yw'r meini prawf hyn a pham nad oes darpariaeth ar eu cyfer ar wyneb y Bil. Dywedodd y Gweinidog:

> *"Because, again, it's the detail, isn't it, of how many, how they'd be appointed, how they're notified of their appointment, how*

> *you revoke the appointment, how you get rid of somebody, or what happens if they die or all that sort of stuff. And so you need a set of regulations that set out how the panel is formed, how many it is, what the quorate number is, all of that kind of stuff. You wouldn't expect to see all of that on the face of a piece of primary legislation. And there might be other efficiency improvements for all of that as well. So, we might say that you have to have, I don't know, some e-mail address, or you might have to be contactable by blah—there's all that kind of stuff. So, as we do for all public appointments, there's a huge raft of things that goes alongside it about how you apply, and whether you're paid, and at what rate of remuneration, and how that's reviewed. This is hugely detailed, and I think it would not sit happily on the face of the Bill."*[80]

**127.** Mae adran 42 yn golygu y gellir gwneud rheoliadau a fydd yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad ag archwilio cais o dan Ran 4 o'r Bil. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog roi esboniad ac eglurder pellach ynghylch y cyfarwyddyd a nodir yn is-adran (3), a chadarnhau pa bŵer y dibynnir arno er mwyn 'newid' y penderfynwr (o Weinidogion Cymru i'r awdurdod archwilio, ac i'r gwrthwyneb). Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

> *"Darperir y pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd, sy'n trosglwyddo'r swyddogaeth o benderfynu ar gais o'r awdurdod archwilio iddynt hwy eu hunain, neu fel arall, gan Adran 52, Is-adran (4) o'r Bil.*
>
> *Bwriedir i'r pŵer i wneud cyfarwyddydau roi hyblygrwydd er mwyn sicrhau, yn y pen draw, y caiff y penderfyniad terfynol ar gais ei wneud gan y corff priodol. Gall fod yn briodol newid y corff penderfynu os bydd awdurdod archwilio yn archwilio cais a bod materion yn codi sydd, er enghraifft, yn arbennig o ddadleuol ac y byddai'n fwy priodol i Weinidogion Cymru gymryd drosodd a delio â'r achos. Yn yr un modd, gall Gweinidogion Cymru fod yn archwilio cais a dod i'r casgliad y byddai'n fwy priodol petai'r awdurdod archwilio yn delio â'r achos; er enghraifft, os na fydd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau i'r cais wedi dod i law. Bydd y Rheoliadau o dan Adran 42 yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn o dan yr*

[80] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [151]

> *amgylchiadau hyn. Bydd hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, faterion megis pwy y bydd angen ei hysbysu am gyfarwyddyd a'r terfyn amser y mae'n rhaid rhoi hysbysiad o'r fath o'i fewn er mwyn peidio ag effeithio'n ormodol ar y broses o wneud penderfyniad."*[81]

**128.** Yn debyg i'r esboniadau ar gyfer y pwerau i wneud rheoliadau yn adrannau 30 a 31, mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 42, hefyd yn nodi y bydd y manylion yn y rheoliadau yn darparu ar gyfer "lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil".[82] Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog am eglurhad pellach, a dyma oedd ei hateb:

> *"Mae Adran 42 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r weithdrefn i'w dilyn mewn cysylltiad ag archwilio cais o dan Ran 4. Mae hyn yn ymdrin â mwy na'r gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd cyfarwyddyd mewn perthynas â'r penderfynwr yn ei roi. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn i'w dilyn mewn cysylltiad â gwneud penderfyniad o dan Adran 41, ynghylch sut y caiff cais ei archwilio, ynghylch materion paratoadol neu faterion yn dilyn archwiliad ac ynghylch cynnal archwiliad, gan gynnwys y weithdrefn ar gyfer trosglwyddo'r swyddogaeth o archwilio cais i gorff arall. Felly, bydd y rheoliadau yn rhagnodi lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil. At hynny, mae'r Bil yn cynnwys materion technegol iawn a manion ac efallai y bydd angen ei ddiwygio ac, felly, mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.*
>
> *Ar y llaw arall, bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn Adran 128 yn rhoi pwerau pellach i Weinidogion Cymru. Felly, ystyrir ei bod yn briodol i reoliadau a wneir o dan Adran 128 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft."*[83]

**129.** Mae adran 43 o'r Bil yn golygu y gellir gwneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer pwerau mynediad i archwilio tir nad yw'r ceisydd yn berchen arno neu'n ei feddiannu. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro pa egwyddorion a fydd yn berthnasol i'r pwerau i gael mynediad at dir a pham nad ydynt ar wyneb

[81] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 13
[82] Memorandwm Esboniadol, tudalennau 33 a 34
[83] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 13

y Bil. Fe wnaethom hefyd ofyn pwy sy'n cael ei gwmpasu gan y geiriad 'person, ar ei ben ei hun neu gydag eraill' at ddiben adran 43. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

> *"Caiff yr egwyddorion sy'n gymwys i bwerau i fynd ar dir eu rhagnodi drwy is-ddeddfwriaeth. Ar yr adeg hon, rhagwelwn y bydd yr egwyddorion hyn fel a ganlyn:-*
>
> *- Bydd yn rhaid i'r tir ymwneud â'r cais sy'n cael ei archwilio;*
>
> *- Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio a fydd yn mynd ar dir fel rhan o archwiliad hysbysu'r ceisydd o'u bwriad (o'i fwriad) i wneud hynny a phersonau eraill yr ystyrir bod angen eu hysbysu. Mae'n debygol y bydd personau eraill yn cynnwys perchennog/meddiannydd y tir a bydd angen cyfnod o rybudd iddynt. Bydd yr hysbysiad yn ysgrifenedig a bydd yn cynnwys dyddiad ac amser arfaethedig yr archwiliad; ac*
>
> *- Ni pherir oedi i'r amserlen ar gyfer archwilio cais o ganlyniad i ymweliad safle. Bydd is-ddeddfwriaeth yn darparu na fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru/yr awdurdod archwilio ohirio archwiliad os na fydd unrhyw berson (gan gynnwys y ceisydd) yn bresennol ar adeg archwiliad.*
>
> *Caiff yr egwyddor i fynd ar dir fel rhan o archwiliad ei sefydlu gan y Bil. Nid yw'r manylion ar wyneb y Bil am eu bod yn ymwneud â materion gweithdrefnol technegol ar gyfer mynd ar dir. Bydd eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth yn rhoi hyblygrwydd i ystyried yr angen posibl i ddiwygio'r gofynion manwl hynny yn y dyfodol. Mae hyn yn debyg i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan y gyfundrefn i Lywodraeth y DU benderfynu ar brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol gan Lywodraeth y DU Mae'r egwyddor i fynd ar dir fel rhan o'r broses o archwilio ceisiadau o dan y gyfundrefn honno wedi'i sefydlu gan Adran 97, Is-adran 3 o Ddeddf Cynllunio 2008. Rhagnodir materion manwl ar gyfer mynd ar di a chynnal arolygiadau safle gan Reol 16 o Reolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010. Mae'r weithdrefn ar gyfer cynnal arolygiadau safle fel rhan o gyfundrefn 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' hefyd wedi'i sefydlu gan is-ddeddfwriaeth, o dan Reoliad 16 o Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016. (…)*

> *Mae'r ymadrodd "person, ar ei ben ei hun neu gydag eraill" at ddiben Adran 43 yn cwmpasu'r personau hynny y byddai'n ofynnol iddynt asesu'r safle er mwyn llywio'r archwiliad, er enghraifft yr Arolygydd a bennwyd i archwilio'r cais. Cydnabyddir y gallai fod angen mwy nag un person ag arbenigeddau gwahanol i asesu'r safle os bydd amrywiaeth o faterion i'w hystyried mewn perthynas ag ef (er enghraifft pe gallai fod materion ecolegol a materion yn ymwneud â phriffyrdd i'w hystyried mewn perthynas â safle)."*[84]

**130.** Fe wnaethom ofyn ymhellach ynglŷn â'r cymal 'person, ar ei ben ei hun neu gydag eraill' pan ddaeth y Gweinidog i'n cyfarfod ar 25 Medi a gofyn yn benodol pam yr oedd y Gweinidog yn ystyried bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y pŵer hwn i wneud rheoliadau. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"This is just whether the inspector wants to go on their own or whether they want to take a cast of thousands as a result of a particularly intensive application that requires expertise, and so on. It's the regulations around making sure that you give the right notification for that. If the committee feels strongly that that should be affirmative, then I'm not going to die in a ditch over it—it just seems quite technical to us, that it is literally just saying, 'I would like to come alone as the inspector', or, 'On this occasion, I would like to bring a cast of thousands'."*[85]

**131.** Mae adran 45 yn ymwneud â mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad lleol. Mae is-adran (6) yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau a fydd yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaethau ynghylch gweithdrefnau sydd i'w dilyn ynghyd â swyddogaethau cynrychiolydd penodedig. Yn y Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer dirprwyedig, mae'r Gweinidog yn datgan yr ystyrir bod y mater hwn yn addas i'w gynnwys mewn rheoliadau "gan fod angen i drefniadau fod yn hyblyg i ymateb i newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol".[86] Nid yw'n ymddangos bod y cyfiawnhad yn mynd i'r afael ag is-adran (6)(b) a fydd yn galluogi'r rheoliadau i ddarparu ar gyfer swyddogaethau cynrychiolydd penodedig, ac nad yw'n ymwneud â gweithdrefnau. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog roi rhagor o eglurder, gan gynnwys esboniad o beth yw

[84] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 14
[85] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [155]. Gweler hefyd Lythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 14.
[86] Memorandwm Esboniadol, tudalen 34

swyddogaethau cynrychiolydd penodedig a sut y gallent newid dros amser. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

> *"Bydd rheoliadau i nodi swyddogaethau cynrychiolydd penodedig yn cynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:*
>
> *- Cynrychioli buddiannau'r person yr effeithir arno, er enghraifft drwy dderbyn cyfarwyddydau gan y person yr effeithir arno cyn cael copïau o dystiolaeth gaeedig neu dystiolaeth a allai fod yn gaeedig, ymdrin â materion rhagarweiniol, gwneud argymhellion a chroesholi tystion;*
>
> *- Sicrhau y caiff y copïau o'r dystiolaeth gaeedig neu'r dystiolaeth a allai fod yn gaeedig eu dychwelyd i'r person a'u darparodd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ymchwiliad; a*
>
> *- Gwneud ceisiadau i'r Llys mewn perthynas ag unrhyw un o'i swyddogaethau.*
>
> *Rhagnodir deddfwriaeth debyg sy'n rhestru cynrychiolydd penodedig at ddibenion rhoi tystiolaeth yn y system gynllunio, o dan Reoliad 4 o Reoliadau Cynllunio (Cyfarwyddydau Diogelwch Gwladol a Chynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2006.*
>
> *Ystyrir bod angen rhoi hyblygrwydd wrth nodi swyddogaethau cynrychiolydd penodedig yn y rheoliadau am ei bod yn bosibl na fydd angen swyddogaethau penodol mwyach yn y dyfodol neu am y gallai fod angen ychwanegu swyddogaethau oherwydd newidiadau i'r weithdrefn archwilio. Er enghraifft, yn y dyfodol os ystyrir y gellir gwneud y broses o gynnal archwiliad yn fwy effeithlon (drwy ddefnyddio technoleg, er enghraifft), efallai y bydd angen addasu swyddogaethau'r cynrychiolydd penodedig er mwyn adlewyrchu proses wedi'i diweddaru."*[87]

[87] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 15

## Ein barn ni

**132.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas â Rhan 4 o'r Bil.

**133.** Mae adran 42(3) yn darparu pwerau i wneud cyfarwyddydau sydd i gynnwys y weithdrefn ar gyfer sefyllfaoedd pan fo'r corff sy'n gwneud penderfyniadau i'w newid o'r awdurdod archwilio i Weinidogion Cymru, ac i'r gwrthwyneb. Nid yw'n glir inni pam na ellir darparu ar gyfer y weithdrefn hon ar wyneb y Bil. O ystyried bod y Gweinidog wedi gallu disgrifio amgylchiadau lle y gallai'r mater hwn godi, ni allwn weld pam nad yw'n bosibl darparu'r eglurder hwnnw i'r darllenydd yn y Bil ei hun.

**Argymhelliad 17.** Dylai'r Gweinidog egluro'r pwerau sydd yn adran 42 o'r Bil, a darparu'r manylion angenrheidiol amdanynt.

**Argymhelliad 18.** Dylid diwygio adran 42 o'r Bil i nodi manylion y weithdrefn ar gyfer sefyllfaoedd pan fo'r corff sy'n gwneud penderfyniadau yn cael ei newid o fod yn awdurdod archwilio i Weinidogion Cymru, ac i'r gwrthwyneb.

**134.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas ag adran 43, yn benodol o ran pwy sy'n cael ei gwmpasu gan yr ymadrodd 'person, ar ei ben ei hun neu gydag eraill' a pham mae'r Gweinidog o'r farn bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y rheoliadau a fydd yn nodi'r manylion hyn.

**Casgliad 8.** Fel rheol gyffredinol, er ein bod yn cydnabod y gallai'r pwerau perthnasol yn adran 43 adlewyrchu'r gyfraith bresennol, nid yw hynny ynddo'i hun yn cyfiawnhau eu cynnwys yn y ffurf a nodir yn y Bil. Rydym yn credu y byddai'n arfer da ac yn briodol gwneud rhyw fath o ddarpariaeth ar wyneb y Bil mewn cysylltiad â phwerau mynediad, yn hytrach na gwneud hynny drwy reoliadau yn unig. Nid ydym yn credu bod y Gweinidog wedi cyfiawnhau'r dull a ddefnyddir yn y Bil yn ddigonol.

**135.** At hynny, o ystyried bod pŵer mynediad i dir yn bŵer sylweddol i'w ddefnyddio, nid ydym wedi'n hargyhoeddi mai'r weithdrefn negyddol yw'r weithdrefn graffu briodol i'w gosod ar y pŵer.

**Argymhelliad 19.** Dylid diwygio adran 43 o'r Bil fel bod yr egwyddorion sy'n gysylltiedig â phŵer mynediad, yn ogystal ag unrhyw gyfyngiadau neu feini prawf a ddylai fod yn berthnasol wrth wneud y rheoliadau, fod ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 20.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft yn gymwys wrth arfer y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 43.

**136.** Mewn perthynas ag adran 45 a'r pŵer yno i wneud rheoliadau y gellir ei ddefnyddio i wneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau cynrychiolydd penodedig, rydym yn cydnabod barn y Gweinidog ond unwaith eto mae gennym bryderon bod y pŵer hwn yn eang ac nad yw'r adran yn cynnwys llawer o fanylion ynghylch beth y gallai'r swyddogaethau ei gynnwys.

**Argymhelliad 21.** Dylid diwygio adran 45 o'r Bil fel bod manylion y caniateir eu rhoi mewn rheoliadau ynglŷn â swyddogaethau cynrychiolydd penodedig y cyfeirir atynt yn is-adran (6) yn cael eu rhestru ar wyneb y Bil. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n golygu y gellid diwygio'r rhestr hon.

## Rhan 5 o'r Bil: Penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith

**137.** Mae Rhan 5 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau ynghylch penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae'r Rhan yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy sy'n penderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith a wneir o dan adran 31 ("cais"), ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i'r penderfynwr ei ystyried wrth benderfynu ar gais, ynghylch yr amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniad, ac ynghylch y broses o wneud y penderfyniad.

**138.** Mae adran 52 o'r Bil yn ymwneud â phenderfynu ar geisiadau. Yn unol ag adran 52, yr awdurdod archwilio sydd â'r swyddogaeth o benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad o'r math a bennir mewn rheoliadau. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog at ba ddatblygiadau y mae hyn yn cyfeirio a pham nad yw'n bosibl gwneud darpariaeth ar gyfer hyn ar wyneb y Bil. Dywedodd y Gweinidog nad oes ganddi unrhyw beth mewn golwg a allai fod angen hyn ar hyn o bryd.[88] Ychwanegodd:

> *"… I have to think of hypothetical examples to give you, I'm afraid. For example, if you wanted to include the alteration of a railway line as a result of a particular application, then we might need to have something specific for that. We don't have anything in our mind at the moment, we just think there may be things that we haven't thought of that might require, I don't know, to change the entire drainage system for somewhere, or something."*[89]

[88] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [162]
[89] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [164]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [165] i [180].

**139.** Mae adran 55 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu materion y caiff yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru eu diystyru wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro beth yw diben y ddarpariaeth hon, a pha faterion y gellid eu diystyru. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw fanylion am yr hyn y mae'r ddarpariaeth hon yn ceisio ei gyflawni, dim ond y bydd y rheoliadau "yn cyflwyno lefel sylweddol o fanylion a bydd angen iddo hefyd fod yn hyblyg i ymateb i unrhyw newidiadau yn y weithdrefn yn y dyfodol".[90] Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

> *"Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys er mwyn cydnabod y dystiolaeth a'r wybodaeth helaeth y mae'n debygol y bydd angen iddynt gael eu hystyried gan y corff penderfynu ar gyfer cais am gydsyniad seilwaith. Diben y ddarpariaeth hon yw helpu i sicrhau proses gwneud penderfyniadau effeithlon drwy ddiystyru materion nad ydynt yn darparu tystiolaeth briodol na chadarn i lywio'r penderfyniad ar gydsyniad seilwaith arfaethedig. Ar yr adeg hon, ystyrir y gallai tystiolaeth a gwybodaeth o'r fath gynnwys sylwadau blinderus neu wacsaw a sylwadau sy'n herio polisi cenedlaethol sefydledig a ragnodir gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol neu'r Cynllun Morol. Fodd bynnag, wrth weithredu'r gyfundrefn newydd, efallai y bydd angen diwygio'r rhestr er mwyn nodi'n glir pa wybodaeth y gellir ei diystyru. Er enghraifft, gellid ychwanegu datganiadau polisi Llywodraeth y DU os ystyrir bod eu hangen."*[91]

**140.** Fe wnaethom holi ymhellach ynglŷn â sylwadau "blinderus neu'n wacsaw" pan ddaeth y Gweinidog i'n cyfarfod ar 25 Medi ac awgrymu iddi y gallai hwn fod yn ddadansoddiad goddrychol. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

> *"The person would always have a legal right to challenge that, of course. We can all probably think of examples. I'm not going to say one here, but one immediately springs into my mind where you have somebody who is very, very, personally concerned about something in a way that has, perhaps, overtaken their lives a little bit, and is no longer providing help*

[90] Memorandwm Esboniadol, tudalen 36
[91] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 16

> *to the inspector but is actually causing a huge amount of work, and the issue isn't one that's new, it's just constantly reiterated…*
>
> *The regulations will set this out, but I would very much argue that somebody who's simply made a frivolous interjection, and the inspector doesn't think it's a material consideration, is not likely to fall foul of this. It's going to be somebody who's persistently making non-material interjections that's going to fall into this."*[92]

**141.** Mae adran 56 yn ymwneud â'r amserlen ar gyfer penderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith.

**142.** Fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae adran 56(2) yn cynnwys pŵer i wneud cyfarwyddydau, sy'n benodol yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn yr amserlen. Pŵer Harri VIII yw hwn, ac nid yw'n ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu gan y Senedd.

**143.** Wrth drafod y pŵer Harri VIII yn adran 56(2), dywedodd y Gweinidog:

> *"You might want to make it longer or shorter or whatever. The regulations will set out some parameters for that, and so on. I don't think that's particularly contentious or difficult. It's obvious why you don't want to put it on the face of the Bill, to my mind. We could know in a year's time that, actually, we've left far too long for various parts of it and not long enough for others, and we might want to adjust that."*[93]

**144.** Dywedodd y Gweinidog y byddai cyfarwyddyd o'r fath yn cael ei wneud mewn achos lle bo rheswm dilys pam nad yw'r cais wedi gallu bwrw ymlaen ar y cyflymder arferol.[94]

**145.** Pan wnaethom holi ymhellach ynglŷn â'r mater hwn ac awgrymu y gallai arfer y cyfarwyddyd fod yn destun gweithdrefn graffu gan y Senedd, ychwanegodd y Gweinidog:

> *"I think that's mixing up, I'm afraid… the legislative and the executive functions of the Bill. So, I think the legislative, scrutiny function there is to take it up with the Minister, that they think*

[92] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [182] a [186]
[93] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [105]
[94] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [191]

> *the Minister's abused their power in some way, or whatever. I think, if the Minister had to be subject to a Senedd piece of scrutiny prior to making the decision, you're effectively inserting a legislative process into the decision-making process, which we've never done before, and which I am not very keen on doing—well, I won't—and I'm not going to do that now. So, I think that's—. You've got to look at what the decision-making process is, and then what the scrutiny of the decision is. If you put one in the front, then you've effectively given the Senedd some part of the decision-making process, which, I would argue, is not the idea, and I would not be very keen on."*[95]

**146.** Mae adran 56(6) yn darparu pŵer ychwanegol i reoliadau ddiwygio adran 56(1)(a). Mae hwn hefyd yn bŵer Harri VIII sy'n galluogi diwygio deddfwriaeth sylfaenol, a bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol. Nid yw'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu i ymestyn yr amserlen, fel y byddai'r pŵer i wneud cyfarwyddydau yn adran 56(2) yn ei ganiatáu. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pam nad yw'n ofynnol i reoliadau a wneir o dan adran 56(6) ddilyn y weithdrefn gadarnhaol. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

> *"Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod statudol drwy is-ddeddfwriaeth o dan is-adran 56(6). Ar yr adeg hon, ni ragwelir y caiff y cyfnod o amser ei ddiwygio. Fodd bynnag, gallai dystiolaeth ddod i'r amlwg drwy weithredu'r broses sy'n nodi y gallai cyfnod byrrach neu hwy o amser fod yn fwy priodol.*
>
> *Ni all y pŵer hwn i wneud rheoliadau ond diwygio is-adran 56(1)(a). Am fod hwn yn fater gweithdrefnol, h.y. newid nifer yr wythnosau sydd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar gais, nid ystyrir bod angen y weithdrefn gadarnhaol ddrafft."*[96]

**147.** Mae adran 57 yn ymdrin â rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith. Mae is-adran (6) yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud a fydd yn gwneud darpariaeth sy'n rheoleiddio'r weithdrefn sydd i'w dilyn os yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith ar delerau sy'n 'sylweddol wahanol' i'r rhai a gynigir yn y cais. Bydd rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol. O ystyried y gallai 'sylweddol wahanol' gynnwys newidiadau sy'n fwy na

[95] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [216] a [218]
[96] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 17

rhai mân eu natur, gofynnwyd i'r Gweinidog a allai egluro pam ei bod yn ystyried bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau o'r fath. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"O ran cynnig Gweinidogion Cymru y dylid gwneud newidiadau "sylweddol wahanol" i gais. Rhagwelwn y bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi mai dim ond gorchymyn sy'n cynnwys mân newidiadau i'r hyn y gofynnwyd amdano yn wreiddiol yn y cais am gydsyniad seilwaith y dylai Gweinidogion Cymru ei wneud. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb o ran pa fathau o ddiwygiadau ac amrywiadau a ystyrir yn dderbyniol pan ofynnir amdanynt drwy gais ar wahân i amrywio neu ddiwygio cydsyniad seilwaith sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft, rhaid iddynt fod yn newidiadau sylweddol neu'n fân newidiadau sylweddol. Felly, er y cyfeirir at newidiadau i gais fel rhai "sylweddol" ar wyneb y Bil, bydd y rheoliadau yn egluro mai dim ond mân newidiadau y dylai Gweinidogion Cymru eu gwneud i orchymyn. Gan y bydd y rheoliadau yn nodi mater technegol manwl mewn perthynas â'r weithdrefn i'w dilyn ar gyfer newidiadau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud i gais, ystyrir ei bod yn briodol iddynt fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol."*[97]

**148.** Yna, fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro pam, os yw'r newidiadau a wneir yn rhai mân, y caiff y pŵer ei ddrafftio'n llawer ehangach nag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r diben. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"Y bwriad yw y bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu y caiff gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru gynnwys mân newidiadau yn unig i'r gorchymyn drafft y gwnaed cais amdano. Gall hyd yn oed mân newidiadau fod yn berthnasol mewn rhai ffyrdd ac felly mae'r drafftio yn briodol."*[98]

**149.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd y bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio i nodi bod adran 57(1)(a) yn "cynnwys y pŵer i wneud gorchmynion i wneud gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad seilwaith ("gorchymyn cydsyniad seilwaith") pan fo'n offeryn statudol."[99]

[97] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 18
[98] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023, ymateb i gwestiwn 1
[99] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 22

**150.** Mae adran 59 o’r Bil yn ymwneud â’r rhesymau dros benderfyniad i roi neu wrthod cydsyniad seilwaith. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog a oes unrhyw bersonau a fydd bob amser yn cael copi o ddatganiad gan Weinidogion Cymru o dan adran 59(3).

**151.** Ymatebodd y Gweinidog:

> *“Bydd is-ddeddfwriaeth a ddarperir o dan adran 59(3) yn nodi'r personau hynny y bydd yn rhaid rhoi copi o ddatganiad o resymau iddynt. Ar yr adeg hon, rhagwelwn y bydd y ceisydd bob amser yn cael y datganiad o resymau. Bydd personau eraill a hysbysir yn amrywio yn ôl y math neu'r categori o ddatblygiad y mae cais yn ymwneud ag ef. Rhagwelwn y gallai personau o'r fath gynnwys ACLlau perthnasol a chynghorau cymuned, ymgyngoreion statudol yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r broses gwneud cais, unrhyw berson a gyflwynodd sylwadau ar gais ac unrhyw bersonau eraill a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru.”*[100]

**152.** Ar 25 Medi, dywedodd un o’r swyddogion a ddaeth gyda’r Gweinidog i’r cyfarfod:

> *“So, anyone who puts in an application at the moment, you know, when you get your decision, you get the reasons for that decision as well. So, what we're doing is replicating that process here. It states that it will always go to the applicant. In practice, it will go to the local planning authority and other statutory consultees as well. What it doesn't say, it doesn't say that in the legislation at the moment. So, essentially we're operating in the same way as the planning system operates at present.”*[101]

## Ein barn ni

**153.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas â Rhan 5 o’r Bil.

**154.** O ran adran 52 o’r Bil, mae gennym bryderon bod y Gweinidog yn ceisio pŵer dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru y mae hi wedi dweud wrthym nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw beth mewn golwg a allai fod angen hyn.

[100] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 19
[101] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [200]

**Casgliad 9.** Nid ydym o’r farn bod y Gweinidog wedi rhoi rhesymeg gadarn dros ddirprwyo’r pŵer yn adran 52, ac nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol na fydd gan y Senedd unrhyw rôl o ran cymeradwyo’r defnydd o’r pŵer hwnnw.

**Argymhelliad 22.** Dylai’r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion ac eglurder ynghylch pam y mae angen y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 52.

**Argymhelliad 23.** Os cedwir adran 52(1), dylid diwygio’r Bil i’w gwneud yn ofynnol i reoliadau sydd i’w gwneud o dan adran 52 fod yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

**155.** Rydym yn nodi’r dystiolaeth gan y Gweinidog mewn perthynas ag adran 55 o’r Bil, yn benodol o ran y pŵer sy’n galluogi’r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru, wrth archwilio cais, i ddiystyru tystiolaeth a gwybodaeth a allai gynnwys sylwadau blinderus neu wacsaw. Yn aml, bydd penderfyniadau ynghylch a yw materion yn flinderus neu’n wacsaw yn fater goddrychol, a gall ddibynnu ar yr amgylchiadau pan fydd y materion hynny’n codi ynghyd â’r sawl sy’n gwneud y penderfyniad.

**156.** Fel yr ydym yn ei ddweud uchod, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys unrhyw fanylion am yr hyn y mae'r ddarpariaeth hon yn ceisio ei gyflawni.

**Casgliad 10.** Mae’r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 55 yn eang ond heb nodau na chyfyngiadau clir. Nid ydym yn ystyried bod hyn yn dderbyniol.

**Argymhelliad 24.** Dylid diwygio adran 55 o’r Bil i gynnwys manylion am y materion y caiff yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru eu diystyru wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith. Gellir diwygio’r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy’n galluogi diwygio’r rhestr hon.

**Casgliad 11.** O ran adran 56 o’r Bil, mae gennym bryderon bod yr adran hon yn cyflwyno lefel annerbyniol o ddarpariaeth annelwig a thrwy hynny ansicrwydd ynghylch y broses a’r amserlen ar gyfer penderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith.

**157.** Rydym yn nodi bod adran 56(1)(b) yn galluogi’r person sy’n gwneud cais am gydsyniad seilwaith a Gweinidogion Cymru i gytuno ar gyfnod ar gyfer penderfynu ar gais. Nid ydym yn glir a oes unrhyw gyfyngiadau i’r ddarpariaeth hon, a sut y bydd y broses hon yn dryloyw.

**Argymhelliad 25.** Dylai’r Gweinidog egluro pam mae angen adran 56(1)(b) a diwygio’r Bil i roi rhagor o fanylion am gyfyngiad y ddarpariaeth hon, a sut y bydd y cyfnod y cytunir arno yn cael ei gyhoeddi.

**158.** Yn benodol mewn perthynas â'r pŵer yn adran 56(2), mae'r rhesymeg dros ddull y Gweinidog o greu'r pŵer i wneud cyfarwyddydau yn parhau i fod yn aneglur i ni. Mae'r berthynas rhwng adran 56(1) ac adran 56(2), a sut y maent yn gweithio gyda'i gilydd, hefyd yn aneglur. Fel y dywedwyd yn gynharach yn y Bennod hon, yn ein barn ni, mae'n bwysig bod y Senedd yn ymwybodol ac yn cymeradwyo paramedrau pŵer Gweinidogol i roi cyfarwyddydau.

**Argymhelliad 26.** Dylai'r Gweinidog egluro pam mae angen y dull a fabwysiadwyd yn adran 56(2) o ran y pŵer i wneud cyfarwyddydau.

**Argymhelliad 27.** Dylid diwygio adran 56 i gynnwys manylion yr hyn y gall cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (2) ei gynnwys. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n galluogi diwygio'r rhestr hon.

**Argymhelliad 28.** Dylid diwygio adran 56 i'w gwneud yn ofynnol bod cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (2) yn cael ei osod gerbron y Senedd, a bod datganiad i gyd-fynd ag ef i bob Aelod o'r Senedd.

**159.** Rydym yn nodi bod adran 56(3)(b) yn galluogi cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (2) i gael ei roi ar ôl diwedd y cyfnodau a grybwyllir yn is-adran (1). Unwaith eto, nid yw'n glir inni a oes unrhyw gyfyngiadau ar y ddarpariaeth hon.

**Argymhelliad 29.** Dylai'r Gweinidog egluro pam mae angen adran 56(3)(b), a dylai ddiwygio'r Bil i ddarparu rhagor o fanylion am y cyfyngiadau sy'n gymwys i'r ddarpariaeth hon, gan gynnwys yn benodol y cyfyngiadau o ran y cyfnod o amser a ganiateir ar gyfer rhoi cyfarwyddyd o dan adran 56(3)(b).

**160.** O ran adran 56(6) sy'n darparu pŵer i wneud rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, gan alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod o amser statudol ar gyfer penderfynu ar geisiadau, nid ydym wedi ein hargyhoeddi mai "mater gweithdrefnol" yn unig yw pŵer o'r fath. Rydym ar ddeall bod cyfnod clir o amser yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus system cydsynio seilwaith. Mae gennym rai pryderon, os yw'r cyfnod o amser yn rhy agored i gael ei newid, y gallai danseilio'r rhesymeg dros gael cyfnod amser o gwbl. Gan hynny, nid ydym yn ystyried ei bod yn rhesymol nac yn briodol nad yw'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd.

**Argymhelliad 30.** Dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i reoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 56(6) o'r Bil fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

**161.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas ag adran 57. Ar ôl clywed y dystiolaeth honno, mae'n ymddangos bod y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 57(6) wedi'i ddrafftio'n ehangach nag sy'n angenrheidiol i gyflawni amcan y Gweinidog.

**162.** Bydd y Gweinidog yn ymwybodol ein bod bob amser yn ystyried y ffordd y gellir defnyddio darpariaeth, ac nid yr hyn y mae Gweinidog presennol yn bwriadu ei wneud â phŵer dirprwyedig.

**Argymhelliad 31.** Dylid diwygio adran 57(6) i gyfyngu'r pŵer i'r hyn sy'n angenrheidiol ac yn unol â'r modd y mae'r Gweinidog wedi datgan y bwriedir defnyddio'r pŵer.

**163.** Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ddiweddaru'r Memorandwm Esboniadol ar y cyfle nesaf posibl i adlewyrchu bodolaeth y pŵer i wneud gorchmynion yn adran 57(1)(a).

**164.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas ag adran 59 o'r Bil, yn benodol o ran y personau a fydd bob amser yn cael copi o ddatganiad gan Weinidogion Cymru o dan adran 59(3).

**165.** Rydym yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog ei bod yn rhagweld y bydd yr ymgeisydd bob amser yn cael y datganiad o resymau, ac y bydd y personau eraill a hysbysir yn amrywio gan ddibynnu ar y math neu gategori o ddatblygiad y mae cais yn ymwneud ag ef. Rydym hefyd yn cydnabod y dystiolaeth a glywsom y bydd y darpariaethau hyn yn gweithredu "yn yr un ffordd ag y mae'r system gynllunio yn gweithredu ar hyn o bryd".

**166.** Serch hynny, fel gyda safbwyntiau eraill yr ydym yn eu mynegi yn yr adroddiad, er mwyn rhoi sicrwydd i bawb y mae'r Bil yn effeithio arnynt ac i wella hygyrchedd y ddeddfwriaeth, nid ydym yn glir pam na ellir nodi ar wyneb y Bil y darperir datganiad i'r ymgeisydd bob amser.

**Argymhelliad 32.** Dylid diwygio adran 59 i'w gwneud yn ofynnol i ddatganiad a gaiff ei lunio o dan is-adrannau (1) neu (2) gael ei ddarparu i'r sawl sydd wedi ymgeisio am orchymyn cydsyniad seilwaith.

## Rhan 6 o'r Bil: Gorchmynion cydsyniad seilwaith

**167.** Mae Rhan 6 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gorchmynion cydsyniad seilwaith.

**168.** Mae adran 60 yn pennu'r hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith. Fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae adran 60(6) yn cynnwys pŵer i wneud gorchymyn Harri VIII nad oes angen gweithdrefn graffu arno yn y Senedd ac sy'n nodi rhai manylion am yr hyn y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith ei wneud.

**169.** Mae adran 81 o'r Bil yn ymwneud â dileu gofynion cydsynio a thybio cydsyniadau. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pa gydsyniadau penodol y mae adran 81(1)(a) yn ymdrin â hwy, a beth yw'r eithriadau a grybwyllir o dan adran 81(4) a pham na ellir eu gosod ar wyneb y Bil. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

> *"Er mwyn rhoi Prosiect Seilwaith Arwyddocaol ar waith a'i ddatblygu, fel arfer byddai angen cael cydsyniad ar gyfer sawl mater atodol. Er mwyn rhoi proses gydsynio unedig go iawn ar waith, caiff y Cydsyniad Seilwaith a roddir gan Weinidogion Cymru hefyd roi caniatâd, gan awdurdodi, cymeradwyo, cydsynio, trwyddedu neu ganiatáu'r materion atodol hyn.*
>
> *Nid oes unrhyw gydsyniadau penodol ar wyneb y Bil gan fod is-adrannau 81(1) (a) a (b) yn caniatáu i orchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys unrhyw gydsyniad atodol a roddir gan awdurdod perthnasol ac nad yw wedi'i restru yn rhan 2 o'r Bil.*
>
> *Mae'r Bil yn mabwysiadu dull amodol, sy'n mynnu bod awdurdod cydsynio perthnasol wedi rhoi caniatâd i'w gydsyniad/trwydded/awdurdodiad gael ei (d)defnyddio o fewn y Cydsyniad Seilwaith. Nodir hyn ar wyneb y Bil yn adrannau 81(2) a (3). (...)*
>
> *Mae Adran 82(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi, mewn is-ddeddfwriaeth, awdurdodiadau/caniatadau/cydsyniadau na fyddant yn ddarostyngedig i adrannau 81(2) na (3). Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i dybio cydsyniad heb gydsyniad (penodol na mud) yr awdurdod perthnasol.*
>
> *Bydd y rheoliadau hyn yn destun ymgynghoriad pellach ond cânt, er enghraifft:*
>
> *• dybio cydsyniad i sefydlu parth diogelwch o amgylch gosodiadau ynni adnewyddadwy o dan adran 95 o Ddeddf Ynni 2004.*
>
> *• dirymu unrhyw ofyniad o dan Reoliadau Perthi 1997.*

*Nid yw'r eithriadau ar wyneb y Bil gan y byddant yn destun ymgynghoriad pellach â rhanddeiliaid perthnasol ac y gallai fod angen eu diwygio wrth weithredu'r broses gydsynio."*[102]

**170.** Mae adran 82 o'r Bil yn ymwneud â chyhoeddi gorchmynion cydsyniad seilwaith a'r weithdrefn ar eu cyfer. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o offeryn statudol, cynllun a datganiad o resymau gerbron y Senedd. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro'r weithdrefn graffu sydd ynghlwm wrth wneud yr offeryn statudol hwn. Ymatebodd y Gweinidog:

*"Mae is-adran 138(5) o'r Bil yn cymhwyso'r weithdrefn negyddol at unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf nad ydynt wedi'u rhestru yn adran 138(4). Nid yw hyn yn gymwys i orchmynion cydsyniad seilwaith gan nad ydynt yn rheoliadau. Nid yw gorchmynion cydsyniad seilwaith yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol na'r weithdrefn gadarnhaol. Fodd bynnag, os bodlonir y meini prawf yn adran 82 a bod y gorchymyn wedi'i gynnwys mewn offeryn statudol, rhaid iddo gael ei osod gerbron y Senedd ynghyd â'r fersiwn ddiweddaraf o unrhyw gynllun a'r datganiad o resymau dros roi'r gorchymyn."*[103]

**171.** Yn rhinwedd paragraff 29 o Atodlen 1 i'r Bil, gall gorchymyn cydsyniad seilwaith a wneir yn unol ag adran 82 greu trosedd. Gan hynny, fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pam nad oedd y weithdrefn gadarnhaol ynghlwm wrth y pŵer hwn. Dywedodd y Gweinidog:

*"Mae'r Gorchymyn a wneir yn ymwneud â rhoi cydsyniad ar gyfer datblygiad unigol ac mae unrhyw drosedd yn berthnasol ac yn angenrheidiol ar gyfer rhoi'r cydsyniad. Mae'r troseddau y gellir eu creu gan Orchymyn Cydsyniad Seilwaith yn gyfyngedig iawn o ran cwmpas. Byddant yn cael effaith leol ac mae pwerau dedfrydu cyfyngedig a all fod ynghlwm wrthynt.*

*Oherwydd y prosesau cyn ymgeisio sydd wedi'u cynnwys yn y system, bydd angen i ymgeiswyr ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a chymunedau lleol ynghylch unrhyw droseddau y maent yn dymuno eu cynnwys yn y Gorchymyn.*

[102] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 20
[103] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 21

> *Un o'r agweddau y bydd yr awdurdod archwilio'n craffu arno yw priodoldeb unrhyw droseddau. Mae'r rhain yn darparu mesurau diogelu addas i sicrhau bod y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio'n briodol a bydd yn agored i Weinidogion Cymru roi gorchymyn heb droseddau sydd yn y gorchymyn y gwnaed cais amdano gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 57 o'r Bil."*[104]

**172.** Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau ein dealltwriaeth bod adran 84(4) yn cynnwys pŵer i wneud gorchmynion, ac y bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny ar y cyfle nesaf posibl. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

> *"Mae adran 84(4) yn cynnwys pŵer i wneud gorchmynion ar gyfer gwneud Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith (pan fo'n offeryn statudol) o ganlyniad i gywiro gwall mewn dogfen penderfyniad. Diolch ichi am ddwyn y mater hwn i'n sylw. Caiff y Memorandwm Esboniadol ei ddiwygio ar y cyfle nesaf er mwyn adlewyrchu'r pŵer hwn i wneud gorchmynion."*[105]

**173.** Mae adran 87 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith.

**174.** Fel y nodwyd ym Mhennod 3, pŵer Harri VIII yw'r pŵer i wneud gorchmynion yn adran 87(1), ac nid oes angen gweithdrefn graffu arno yn y Senedd.

**175.** Mae is-adran (7) o adran 87 yn nodi rhai manylion am yr hyn y mae'r pŵer yn is-adran (1) yn ei gynnwys. Er enghraifft, pŵer i osod gofynion newydd neu ddileu neu amrywio gofynion presennol.

**176.** O ran adran 88, sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith, yn y Memorandwm Esboniadol, wrth ddisgrifio priodoldeb y pŵer dirprwyedig, mae'r Gweinidog yn nodi y bydd y rheoliadau yn darparu ar gyfer "lefel sylweddol o fanylion a fyddai'n feichus wrth ddarllen y Bil". Fel y dywedwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae rhesymau tebyg wedi'u rhoi mewn perthynas â'r pwerau dirprwyedig yn adrannau 30, 31 a 42. Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro ymhellach beth mae hyn yn ei olygu a pham y mae hi o'r farn mai mân fater yw hwn. Ymatebodd y Gweinidog:

---

[104] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023, ymateb i gwestiwn 2
[105] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 22

> *"Mae'r pŵer yn adran 88 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith.*
>
> *Bydd y Rheoliadau yn rhagnodi materion sy'n ymwneud yn benodol â'r broses newid a dirymu, er enghraifft, sut y dylid gwneud cais, pa wybodaeth a dogfennau ategol y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda chais, pa ymgynghoriad a gynhelir a manylion y broses gwneud penderfyniadau. Byddai graddau'r gweithdrefnau yn gwneud y Bil yn feichus i'w ddarllen ac ystyrir eu bod yn fân fater gweithdrefnol a thechnegol yn y broses gydsynio ehangach.*
>
> *Ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer yr adran hon, am ei bod yn ymwneud ag elfennau gweithdrefnol o'r broses ar gyfer newid a dirymu cydsyniad seilwaith. Mae'r weithdrefn negyddol ar gyfer y rheoliadau hyn hefyd yn rhoi hyblygrwydd a'r cyfle i ymateb i newidiadau yn amserol er mwyn sicrhau bod y system cydsynio yn cael ei diweddaru'n rheolaidd, er enghraifft, os byddwn yn penderfynu diwygio'r gofynion o ran cyhoeddusrwydd er mwyn ystyried newidiadau mewn technoleg."*[106]

**177.** Yna fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pa bersonau a fydd bob amser yn cael hysbysiad o newid neu ddirymiad gorchymyn cydsyniad seilwaith o dan adran 88(6). Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"Mae sawl llwybr posibl o ran y gallu i geisio diwygio neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, sy'n cyflwyno rhywfaint o gymhlethdod. Er enghraifft, gallai fod cais i ddirymu gorchymyn gan ymgeisydd neu Awdurdod Cynllunio Lleol. Fel dewis arall, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddiddymu gorchymyn yn unochrog.*
>
> *Felly, mae'n anodd rhagweld pwy fyddai bob amser yn cael hysbysiad ynghylch diwygio neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.*
>
> *Fodd bynnag, fel mater o gyfraith gyhoeddus a chyfiawnder naturiol, byddai gofyniad bob amser i roi hysbysiad i'r person a wnaeth gais yn wreiddiol am y gorchymyn cydsyniad seilwaith.*

[106] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 23

> *Yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn o ran cyfraith gyhoeddus a chyfiawnder naturiol, daethpwyd i'r casgliad na fyddai angen gosod y gofyniad hwn ar wyneb y Bil."*[107]

**178.** Mae adran 92 yn ymdrin â phryd y bydd datblygiad yn dechrau, at ddibenion y Ddeddf. Mae adran 92(2) yn nodi bod "gweithrediad sylweddol" yn golygu unrhyw weithrediad ac eithrio gweithrediad o fath a bennir mewn rheoliadau. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro pa weithrediadau na fyddai'n weithrediadau sylweddol.

**179.** Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

> *"Mae adran 92 states nodi yr ystyrir bod datblygiad yn dechrau ar y diwrnod cynharaf y caiff unrhyw weithrediad perthnasol ei gynnal. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn bosibl i reoliadau nodi'r mathau o weithrediadau nad ydynt yn "weithrediad perthnasol" at ddibenion dechrau datblygiad.*
>
> *Mae hepgor gweithrediadau penodol o'r diffiniad o weithrediad perthnasol yn rhoi eglurder. Er enghraifft, rhagwelir y bydd y rheoliadau yn nodi na fydd gwaith samplu pridd na dŵr yn gyfystyr â gweithrediad perthnasol ar ei ben ei hun ac, felly, nid ystyrir ei fod yn dechrau datblygiad at ddibenion hyd gorchymyn cydsyniad seilwaith."*[108]

## Ein barn ni

**180.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas â Rhan 6 o'r Bil.

**181.** Mae adran 60(6) yn galluogi gorchymyn cydsyniad seilwaith, ymhlith pethau eraill, i gymhwyso neu addasu deddfiad sy'n ymwneud ag unrhyw fater y caniateir gwneud darpariaeth ar ei gyfer yn y gorchymyn (gweler adran 60(6)(a)). Gall hefyd wneud diwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau i ddeddfiadau sy'n gymwys yn lleol y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod hynny'n briodol (gweler adran 60(6)(b)).

**182.** Mae'r ddarpariaeth yn adran 60(6) yn creu pwerau Harri VIII eang, ond nid yw'n rhoi unrhyw gyfle i'r Senedd graffu arno. Nid yw'n glir pa ddeddfiadau y byddai angen eu haddasu, i ba ddiben, ac i ba raddau.

[107] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023, ymateb i gwestiwn 3
[108] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 24

**183.** Yn ogystal â bod yn bŵer eang nad oes ganddo baramedrau clir ac nad yw ei ddiben yn glir, mae gennym bryderon y gallai'r pŵer hwn gael effeithiau negyddol o ran eglurder a chysondeb. Nodwn mai dim ond at ddibenion datblygiad unigol y byddai pob addasiad. Gan hynny, gallai dau orchymyn cydsynio seilwaith ar wahân wneud darpariaeth wahanol yn seiliedig ar ffeithiau tebyg. Mae diffyg gorolwg y Senedd o'r defnydd o'r pwerau Harri VIII hyn yn cynyddu'r risg o weithrediad anghyson, gan nad oes darpariaeth yn bodoli a fyddai'n caniatáu ar gyfer monitro'r defnydd o'r pwerau hyn yn effeithiol.

**184.** Er bod adran 82(3)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i orchmynion cydsyniad seilwaith sy'n cynnwys darpariaeth a wneir gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 60(6)(a) neu (b) gael eu cynnwys mewn offeryn statudol, nid yw'n ofynnol i unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd gael ei dilyn mewn perthynas â gorchymyn o'r fath.

**Argymhelliad 33.** Dylai'r Gweinidog egluro pam, mewn perthynas ag adran 60(6)(a) a (b), ei bod yn briodol i orchymyn cydsyniad seilwaith ddiwygio, addasu neu eithrio deddfiadau heb unrhyw graffu na gorolwg gan y Senedd.

**Argymhelliad 34.** Dylid diwygio adran 60 i'w gwneud yn ofynnol bod gorchymyn a wneir yn unol â'r adran yn cael ei osod gerbron y Senedd, a dylai fod datganiad i gyd-fynd ag ef i holl Aelodau'r Senedd.

**185.** O ran adran 82, rydym yn nodi y gall gorchymyn cydsynio seilwaith a wneir yn unol â'r adran hon greu trosedd (gweler adran 82(3)(a)), ac y bydd y gorchymyn yn ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn dibynnu ar beth yw ei gynnwys. Os yw gorchymyn o'r fath yn creu trosedd, mae'n ymddangos nad oes gweithdrefn i'r Senedd graffu arno. Nid ydym yn ystyried bod hyn yn dderbyniol. Pan fodlonir y meini prawf yn adran 82, a phan fo'r gorchymyn seilwaith wedi'i gynnwys mewn offeryn statudol, rydym yn nodi mai dim ond ei osod gerbron y Senedd fydd yn ofynnol (gweler adran 82(4)).

**Argymhelliad 35.** Dylid diwygio'r Bil fel bod yn rhaid i orchmynion a wneir o dan adran 82 sy'n creu trosedd fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft.

**186.** O ran adran 84, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ddiweddaru'r Memorandwm Esboniadol ar y cyfle nesaf posibl i adlewyrchu bodolaeth y pŵer i wneud gorchmynion yn is-adran (4).

**187.** Mae'r ddarpariaeth a wneir yn adran 87 yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith. Mae'n ymddangos bod hwn yn bŵer Harri VIII eang, ac ni fydd yn destun unrhyw graffu yn y Senedd. Mae'r weithdrefn y darperir ar ei chyfer yn y Bil ar gyfer cael cydsyniad seilwaith yn fanwl

ei natur. Bydd cais yn cael ei ystyried yn fanwl, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud o ran p'un a ddylid rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer cais penodol a phrosiect penodol ai peidio. Mae gennym bryderon bod y gallu i newid neu ddirymu'r gorchymyn cydsyniad seilwaith ar ôl iddo gael ei wneud yn effeithio ar gysondeb a rhagweladwyedd y broses gydsynio.

**188.** Nodwn y gellir gwneud y pŵer i newid neu ddirymu'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn dilyn cais gan yr ymgeisydd, person sydd â buddiant yn y tir, neu unrhyw berson arall y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael effaith er ei fudd (gweler adran 87(3)).

**189.** Nodwn ymhellach fod adran 87(4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, a wneir yn unol â'r darpariaethau yn y Bil, o dan rai amgylchiadau (er enghraifft, bod datblygiad wedi ei ddechrau ond wedi ei adael) pan wneir cais gan awdurdod cynllunio. Gall Gweinidogion Cymru hefyd newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith heb i gais gael ei wneud (gweler adran 87(6)). Mae gennym bryderon, pan fydd gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael ei newid neu ei ddirymu, a hynny heb gais neu ymgynghoriad, y gallai fod canlyniadau nas rhagwelwyd i'r datblygwr ac i randdeiliaid.

**190.** Credwn ei bod yn bwysig bod y Senedd yn ymwybodol o'r modd y mae adran 87 yn cynnwys pŵer Harri VIII i wneud gorchmynion heb unrhyw weithdrefn.

**191.** Mae adran 88 yn darparu i faterion gweithdrefnol gael eu nodi mewn rheoliadau. Fodd bynnag, nid yw'r pwerau hyn yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer ymgynghori neu gyhoeddusrwydd. Nid yw'n glir o'r Bil fel y'i drafftiwyd pa fesurau diogelu a fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn briodol a chyda gwybodaeth ddigonol. Mae gennym bryderon bod risg y gallai canlyniadau nas rhagwelir ddeillio o addasu neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith – rhywbeth arall a roddwyd ar ôl y broses a amlinellir yn y Bil.

**192.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog ynghylch adran 88 o'r Bil, yn benodol mewn perthynas â pha bersonau a fydd bob amser yn cael hysbysiad o newid neu ddirymiad gorchymyn cydsyniad seilwaith o dan adran 88(6).

**193.** Rydym yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog "fel mater o gyfraith gyhoeddus a chyfiawnder naturiol, byddai gofyniad bob amser i roi hysbysiad i'r person a wnaeth gais yn wreiddiol am y gorchymyn cydsyniad seilwaith" a, gan hynny, daeth y Gweinidog i'r casgliad na fyddai angen gosod y gofyniad hwn ar wyneb y Bil.

**194.** Os byddai gofyniad bob amser i roi hysbysiad i'r person a wnaeth gais yn wreiddiol am y gorchymyn cydsyniad seilwaith, rydym o'r farn y byddai'n gwella hygyrchedd y ddeddfwriaeth pe bai'r manylion hyn yn cael eu nodi ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 36.** Dylid diwygio adran 87 i'w gwneud yn ofynnol bod gorchymyn a wneir o dan is-adran (1) yn cael ei osod gerbron y Senedd, ynghyd â datganiad i bob Aelod o'r Senedd.

**Argymhelliad 37.** Dylid diwygio'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn adrannau 87 ac 88 sy'n ymwneud â newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith i gynnwys manylion y mesurau diogelu a fydd ar waith mewn perthynas â defnyddio'r pŵer yn adran 87(1) er mwyn sicrhau nid oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

**Argymhelliad 38.** Dylid diwygio adran 88 i'w gwneud yn ofynnol i hysbysiad a ddyroddir o dan is-adran (6) gael ei ddarparu i'r person a wnaeth gais yn wreiddiol am y gorchymyn cydsyniad seilwaith.

**195.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas ag adran 92 o'r Bil, ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y rhesymeg pam na ellir cynnwys rhagor o fanylion am yr hyn nad yw'n "weithrediad perthnasol" ar wyneb y Bil. Darparodd y Gweinidog enghreifftiau o weithrediadau penodol y mae hi'n ystyried a fyddai'n syrthio y tu allan i'r diffiniad hwn, ac nid ydym yn glir pam na ellir rhestru materion o'r fath yn adran 92.

**Argymhelliad 39.** Dylid diwygio adran 92 i gynnwys manylion yr hyn y gellir ei ystyried yn weithrediad nad yw'n "weithrediad perthnasol". Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n galluogi diwygio'r rhestr hon.

## Rhan 7 o'r Bil: Gorfodi

**196.** Mae Rhan 7 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau ynghylch troseddau sy'n ymwneud â datblygu heb ganiatâd seilwaith a thorri telerau gorchymyn cydsyniad seilwaith, neu fethiant i gydymffurfio â'r telerau hynny, a'r gallu i gyflwyno hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig. Mae'r Rhan yn gwneud darpariaeth ynghylch pa offerynnau gorfodi sydd ar gael i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i gynorthwyo o ran ymgymryd â dyletswyddau gorfodi, yn ogystal â'r terfynau amser ar gyfer cymryd unrhyw gamau gorfodi.

**197.** Mae adran 115 yn ymdrin â chyfyngiadau ar y pŵer i ddyroddi hysbysiad stop dros dro. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro pa weithgareddau nas

gwaherddir gan hysbysiad stop dros dro o dan adran 115(1). Ymatebodd y Gweinidog:

> *"Prif ddiben cyfyngu ar y defnydd o hysbysiadau stop dros dro yw sicrhau nad effeithir ar hawliau penodol a all fod gan unigolyn neu pan fyddai i ddyroddi hysbysiad o'r fath oblygiadau negyddol eraill, er enghraifft i iechyd a diogelwch neu ddiogelwch cenedlaethol.*
>
> *Mae'r pŵer hwn yn adlewyrchu adran 171F(1)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac efallai y cyflwynir cyfyngiadau penodol yn system gynllunio ehangach a fyddai hefyd yn berthnasol i geisiadau am gydsyniad seilwaith. Felly, mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i gysoni â'r system gynllunio ehangach, lle y bo'n berthnasol."*[109]

### Ein barn ni

**198.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas â Rhan 7 o'r Bil.

**199.** Er ein bod yn cydnabod yr ymateb a roddodd y Gweinidog i'n cwestiwn yn gofyn pa weithgareddau na fydd hysbysiad stop dros dro o dan adran 115(1) yn eu gwahardd, rydym yn credu bod angen rhagor o eglurder.

**Argymhelliad 40.** Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion ac eglurder ynghylch pa weithgareddau na fydd hysbysiad stop dros dro o dan adran 115(1) yn eu gwahardd.

## Rhan 8 o'r Bil: Swyddogaethau atodol

**200.** Mae Rhan 8 o'r Bil yn darparu nifer o swyddogaethau atodol, ar gyfer Gweinidogion Cymru yn bennaf, i hwyluso gweithrediad y system a sefydlir gan y Bil ac i roi pwerau i Weinidogion Cymru i addasu'r system drwy ddatgymhwyso ei gofynion neu wneud darpariaeth arbennig ar gyfer ceisiadau gan y Goron (gan gynnwys swyddfeydd y Goron a chyrff y Goron).

**201.** Mae adran 121 yn ymdrin â ffioedd am gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau cydsyniad seilwaith. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pa awdurdodau cyhoeddus a fydd yn cael codi ffioedd, a dywedodd y Gweinidog wrthym:

[109] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 25

> *"Mae'r Bil hwn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chodi ffioedd gan awdurdod cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â chydsyniad seilwaith. Er mwyn creu cyfundrefn codi ffioedd sy'n syml a thryloyw, rhagwelir y bydd ffioedd yn gyfuniad o gyfraddau sefydlog ac amrywiadwy. Gall costau amrywio yn ôl maint, graddfa a lleoliad datblygiad arfaethedig a gall ffactorau eraill megis chwyddiant effeithio ar gostau. Mae'r ffaith bod cyfradd amrywiadwy i'w chael o fewn y broses yn rhoi hyblygrwydd o'r fath.*
>
> *Rwyf eisoes wedi nodi, yn sesiwn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar 6 Gorffennaf, fy mod yn awyddus i weld ffioedd yn cael eu codi ar sail adennill costau. Bydd y pŵer hwn yn fy ngalluogi i wneud hyn drwy ganiatáu i gyrff cyhoeddus godi ffioedd.*
>
> *Rhagwelaf mai'r awdurdodau cyhoeddus a nodir gan reoliadau yw:*
>
> *• Gweinidogion Cymru;*
>
> *• Awdurdodau Cynllunio Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru; ac*
>
> *• Ymgyngoreion Statudol penodol."*[110]

**202.** Fe wnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog beth yw'r swyddogaethau y manylir arnynt o dan adran 121(5), ac i bwy y cânt eu rhoi. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"Yr awdurdodau cyhoeddus y caniateir iddynt godi ffioedd mewn perthynas â gorchmynion cydsyniad seilwaith yw'r cyrff y gellir rhoi swyddogaethau iddynt hefyd. Serch hynny, nid yw'r ffaith bod corff cyhoeddus yn cyflawni swyddogaeth neu'n darparu gwasanaeth fel rhan o'r Bil o reidrwydd yn golygu y gellir codi ffi. Rhaid i ffioedd a godir fod yn rhesymol ac yn briodol.*
>
> *Gweinidogion Cymru*

[110] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 26

*Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru, neu'r rhai a benodir ar eu rhan (megis PEDW), gyflawni'r swyddogaethau canlynol mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith:*

*• Darparu gwasanaethau cyn ymgeisio (os gofynnir amdanynt);*

*• Ymateb i ffurflen hysbysu cyn ymgeisio;*

*• Dilysu cais ar ôl iddo gael ei gyflwyno;*

*• Bodloni unrhyw ofynion perthnasol o ran cyhoeddusrwydd a hysbysu;*

*• Ystyried amrywiadau i gais (os bydd ceisydd yn gofyn amdanynt);*

*• Archwilio cais;*

*• Penderfynu ar gais.*

*Gallai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflawni swyddogaethau tebyg pan ofynnir am ddiwygiad i orchymyn cydsyniad seilwaith ar ôl i gydsyniad gael ei roi, yn ogystal â swyddogaethau sy'n ymwneud â dirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith. Ein bwriad yw y bydd Gweinidogion Cymru yn codi ffi am brosesu gorchymyn cydsyniad seilwaith a phenderfyniad arno.*

*Awdurdodau Cynllunio Lleol*

*Bydd yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ("ACLl") gyflawni'r swyddogaethau canlynol mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith:*

*• Darparu gwasanaethau cyn ymgeisio (os gofynnir amdanynt);*

*• Cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol;*

*• Bod yn bresennol yn ystod yr archwiliad (lle y bo'n berthnasol).*

*Cyfoeth Naturiol Cymru*

*Bydd yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni'r swyddogaethau canlynol mewn perthynas â chais am*

*gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer trwydded forol dybiedig:*

*• Cyflwyno adroddiad effaith ar y môr MIR)*

*• Bod yn bresennol yn ystod yr archwiliad (lle y bo'n berthnasol).*

*Ymgyngoreion statudol*

*Bydd yn ofynnol i ymgyngoreion statudol gyflawni'r swyddogaethau canlynol mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith:*

*• Ymateb i ymgynghoriadau ar ffurf ymateb o sylwedd;*

*• Bod yn bresennol yn ystod yr archwiliad (lle y bo'n berthnasol).*

*O ran rhoi swyddogaethau i ymgyngoreion statudol, efallai eich bod yn ymwybodol fy mod wedi ceisio cydsyniad Gweinidog y Goron i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys i ymgyngoreion statudol penodol. (…) Mae trafodaethau rhwng swyddogion ynghylch y mater hwn yn dal i fynd rhagddynt."*[111]

**203.** Mae adran 126 yn ymwneud â'r pŵer i ymgynghori a dyletswydd i ymateb i ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r Gweinidog pa awdurdodau cyhoeddus yr ymgynghorir â hwy o dan adran 126(1), a pham nad ydynt wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil. Atebodd y Gweinidog:

*"Bwriedir i'r rhestr o awdurdodau a chyrff sydd i'w nodi yn ymgyngoreion statudol gael ei phennu mewn is-ddeddfwriaeth yn dilyn ymarfer ymgynghori, er mwyn sicrhau bod yr holl gyrff perthnasol yn cymryd rhan yn y broses. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd llawer o'r awdurdodau a'r cyrff yr ymgynghorir â hwy ar hyn o bryd fel rhan o'r broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol hefyd yn ymgyngoreion statudol at ddibenion y gyfundrefn gydsynio newydd hon pan fo datblygiad ar dir.*

*Rhagwelir yr ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru ym mhob achos. Fodd bynnag, ymgynghorir â chyrff cyhoeddus mwy arbenigol o dan amgylchiadau penodol. Er enghraifft, ymgynghorir â'r Weinyddiaeth Amddiffyn pan fo datblygiad*

[111] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 26

*wedi'i leoli o fewn parthau diogelu statudol, fel y'u cyflwynir o dan Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Meysydd Glanio wedi'u Diogelu, Safleoedd Technegol ac Ardaloedd Storio Milwrol) 2002, neu yn achos datblygiadau gwynt, pan fyddai gan unrhyw dyrbin uchafswm uchder blaen llafn o 11m neu fwy oddi ar lefel y ddaear a/neu ddiamedr rotor o 2.0m neu fwy.*

*Ystyrir bod y rhestr o ymgyngoreion statudol yn addas ar gyfer rheoliadau, yn hytrach na chael ei rhoi ar wyneb y Bil oherwydd y bydd gwybodaeth am ymgynghoriadau ag ystod eang o gyrff cyhoeddus yn cyflwyno lefel sylweddol o fanylion. Bydd angen iddi hefyd fod yn hyblyg er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau o ran gweithdrefnau neu gyfrifoldebau sefydliadol yn y dyfodol."*[112]

**204.** Mae adran 127 yn ymdrin â chyfarwyddydau Gweinidogion Cymru i awdurdodau cyhoeddus. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau ein dealltwriaeth bod adran 127(3) yn cynnwys pŵer i wneud cyfarwyddydau, ac y bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny ar y cyfle nesaf posibl. Ymatebodd y Gweinidog:

*"Darperir y pŵer i wneud cyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ymgymryd ag unrhyw faterion perthnasol mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad seilwaith a gyflwynir i Weinidogion Cymru, o dan Adran 127(1). Mae adran 127(3) yn egluro sut y caiff cyfarwyddydau o'r fath eu rhoi. Nodwn fod gwall yn y tabl o is-ddeddfwriaeth sy'n awgrymu bod adran 127(3) yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau. Mae hyn yn anghywir ac, felly, byddwn yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol ar y cyfle nesaf."*[113]

**205.** Fe wnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog gadarnhau sut y mae'r angen i ddeddfu'n "gyflym"[114] yn berthnasol i'r dewis o ran gweithdrefn ar gyfer y pŵer i wneud cyfarwyddydau yn adran 127(3). Dywedodd y Gweinidog:

*"Mae adran 127(3) yn egluro y caiff cyfarwyddydau ymwneud â cheisiadau neu awdurdodau penodol neu â cheisiadau neu*

[112] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023, ymateb i gwestiwn 4
[113] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 27
[114] Memorandwm Esboniadol, tudalen 46

> *awdurdodau yn gyffredinol. Er enghraifft, caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ar y ffordd y gwneir hysbysiad ar fath penodol o brosiect seilwaith yn sgil newidiadau i wefan lle mae'r gofrestr ceisiadau yn cael ei chynnal, neu ddiwygiadau i'r rhestr o ymgyngoreion statudol.*
>
> *Byddai'n fuddiol i bob parti dan sylw fod unrhyw addasiadau yn cael eu gwneud yn brydlon, neu fel arall gall y broses barhau i beri baich diangen i'r rhai dan sylw. Bydd y gallu i weithredu'n gyflym yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw oedi na dyblygu Gwaith yn ddiangen.”*[115]

**206.** Mae adran 128(1) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn eu galluogi i gyfarwyddo nad yw gofynion a osodir gan y Ddeddf yn gymwys mewn achosion a bennir yn y cyfarwyddyd. Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Mae’r Memorandwm Esboniadol, wrth gyfiawnhau’r weithdrefn, yn datgan “bydd is-ddeddfwriaeth yn cyfyngu ar y pŵer hwn”.[116]

**207.** Fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae adran 128(1) hefyd yn cynnwys pŵer Harri VIII i wneud cyfarwyddydau nad yw’n gofyn am weithdrefn graffu yn y Senedd.

**208.** Bydd y cyfarwyddydau yn gallu datgymhwyso gofynion a osodir gan y Bil, os ac unwaith y dônt yn ddeddf, a gallant fod yn berthnasol i achos neu achosion penodol yn gyffredinol. Fe wnaethom ofyn i’r Gweinidog pam fod y pŵer hwn yn briodol ac yn angenrheidiol, a dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *“Bwriedir i'r broses gydsynio a gyflwynir gan y Bil fod yn siop un stop ar gyfer cydsynio seilwaith yng Nghymru. Defnyddir un broses ar gyfer amrywiaeth eang o ddatblygiadau seilwaith ac mewn amrywiaeth eang o amgylchiadau gwahanol.*
>
> *Bwriedir i'r broses fod yn rhagnodol. Er enghraifft, bydd is-ddeddfwriaeth yn rhagnodi'n fanwl sut mae'n rhaid i ymgynghoriadau gael eu cynnal neu sut y bydd yr awdurdod archwilio yn hysbysu partïon â buddiant ar ôl cael cais dilys.*
>
> *Wrth fod yn rhagnodol, cydnabyddir y gallai deddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i bartïon fodloni gofynion a allai fod yn ormodol o dan rai amgylchiadau cyfyngedig. Nod y Bil yw*

[115] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023, ymateb i gwestiwn 5
[116] Memorandwm Esboniadol, tudalen 46

*sicrhau proses archwilio dryloyw a theg sydd hefyd yn effeithlon ac yn amserol. Er mwyn parhau i gyflymu'r broses gydsynio, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i hepgor gofynion gweithdrefnol penodol ond dim ond os byddant o'r farn na fyddai hynny yn amharu ar degwch gweithdrefnol.*

*Nodir isod enghreifftiau o amgylchiadau lle y gellir ystyried anwybyddu gofynion.*

*Er enghraifft, bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi gofynion o ran cyhoeddusrwydd. Yn achos llwybr llinol, megis rheilffordd neu ffordd newydd, gallai hyn gynnwys sawl hysbysiad. Fodd bynnag, os bydd angen rhoi cyhoeddusrwydd ychwanegol i fân ddiwygiad i'r cynllun, mae'n bosibl na fydd Gweinidogion Cymru yn gweld unrhyw reswm dros roi cyhoeddusrwydd i'r diwygiad hwn yn yr un ffordd.*

*Enghraifft arall yw pan fydd is-ddeddfwriaeth yn nodi gofynion y bydd yn rhaid i geisydd eu bodloni yn ystod yr ymgynghoriad cyn ymgeisio. Os bydd y rheoliad yn gofyn am gynnal digwyddiadau cyhoeddus er mwyn ymgynghori ar ddatblygiad arfaethedig, gallai fod achosion lle na fydd hyn yn ffisegol bosibl, er enghraifft yn ystod pandemig.*

*Enghraifft derfynol yw pan fydd is-ddeddfwriaeth yn pennu gofynion ymgynghori sy'n gysylltiedig â chywiro gwallau mewn penderfyniad. Yn dibynnu ar natur y cywiriad, gallai fod yn briodol hepgor rhai gofynion ymgynghori.*

*Mewn achosion o'r fath, byddai'n ddefnyddiol ac yn gymesur i Weinidogion Cymru arfer pŵer sy'n eu galluogi i hepgor gofyniad neu ofynion gweithdrefnol a nodir yn y Bil neu mewn rheoliadau. Er mwyn sicrhau tryloywder, pan gaiff gofynion eu hepgor, byddai'n bwysig bod y rhesymau dros hepgor y gofynion hynny yn cael eu cyhoeddi.”*[117]

**209.** Fe wnaethom hefyd ofyn i’r Gweinidog sut y bydd is-ddeddfwriaeth yn cael ei defnyddio i gyfyngu ar y pŵer. Dywedodd y Gweinidog:

[117] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 28

> *"Oherwydd natur y pŵer hwn, bwriedir cyfyngu ar ei gwmpas drwy is-ddeddfwriaeth y mae'n rhaid iddi nodi'r gofynion y gellir eu datgymhwyso drwy gyfarwyddyd.*
>
> *Ar yr adeg hon, rhagwelir y bydd y pŵer hwn wedi'i gyfyngu i weithdrefnau cyn ymgeisio, i rai gweithdrefnau gwneud cais a'r weithdrefn ar gyfer cywiro gwalau mewn cydsyniad neu newid neu ddirymu cydsyniad seilwaith.*
>
> *Ni fwriedir i'r is-ddeddfwriaeth, o dan unrhyw amgylchiadau, ei gwneud yn bosibl i gyfarwyddyd gael ei roi i ddatgymhwyso gofynion sy'n diogelu hawliau neu'n sicrhau na chyflawnir unrhyw droseddau, megis gweithdrefnau sy'n ymwneud â phrynu gorfodol.*
>
> *Bydd rheoliadau hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd sy'n hepgor gofyniad a nodi'r rhesymau dros ei hepgor."*[118]

**210.** Fe wnaethom nodi bod y Gweinidog, yn ei llythyr atom ar 11 Medi, wedi dweud "Ni fwriedir i'r is-ddeddfwriaeth, o dan unrhyw amgylchiadau, ei gwneud yn bosibl i gyfarwyddyd gael ei roi i ddatgymhwyso gofynion sy'n diogelu hawliau neu'n sicrhau na chyflawnir unrhyw droseddau". Gofynnwyd i'r Gweinidog gadarnhau a fyddai'r ddarpariaeth hon yn y Bil, os a phan ddaw'n ddeddf, yn atal Gweinidog yn y dyfodol rhag defnyddio'r pŵer hwn i ddatgymhwyso gofynion sy'n diogelu hawliau. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"Mae'r pŵer i wneud cyfarwyddydau wedi'i gyfyngu i feysydd a bennir yn y Rheoliadau, gyda'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Bydd yr ymgynghoriad a gwaith craffu gan y Senedd ar y rheoliadau hynny'n darparu mesurau diogelu priodol. Fel y soniais uchod, nid wyf yn credu ei bod yn bosibl nodi darpariaethau ar wyneb y Bil lle caniateir rhoi cyfarwyddyd, ond os oes gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r adran hon, byddwn yn hapus i'w hystyried."*[119]

**211.** Mae adran 129 yn ymwneud â cheisiadau gan y Goron. O ran pŵer Harri VIII yn adran 129(2), sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, dywedodd swyddog

[118] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 11 Medi 2023, ymateb i gwestiwn 28
[119] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023, ymateb i gwestiwn 7

a oedd gyda'r Gweinidog fod "datblygiadau'r Goron yn un o'r meysydd hynny y credwn ei bod yn bwysig cael y math hwn o bŵer" ac ychwanegodd, fel enghraifft, y gallai fod gwybodaeth sensitif yn gysylltiedig â diogelwch cenedlaethol.[120]

**212.** Mae adran 137 yn darparu ar gyfer cyfyngiadau a fydd yn gymwys wrth wneud rheoliadau a gorchmynion o dan y Bil. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog beth yw diben drafftio'r ddarpariaeth hon a pham y mae wedi'i chynnwys o ystyried gweithrediad adran 154 o Ddeddf 2006. Gofynnwyd iddi hefyd pam mae adran 137 yn cyfeirio at rai o ddarpariaethau Atodlen 7B i Ddeddf 2006 yn unig ac nid at eraill. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"Mae adran 137 o'r Bil yn nodi'r cyfyngiadau ar gwmpas y pwerau is-ddeddfwriaeth wrth wneud darpariaethau a allai roi swyddogaethau i un o Weinidogion y Goron, adran y llywodraeth neu awdurdod arall a gedwir yn ôl, neu addasu neu ddileu'r swyddogaethau'r hynny.*
>
> *Mae'r cyfyngiadau ym mharagraffau 8, 10 ac 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a grybwyllir yn adran 137 o natur sylfaenol wahanol i gyfyngiadau eraill yn Atodlen 7B. Mae'r rhan fwyaf o gyfyngiadau yn Atodlen 7B i GOWA 2006 yn diystyru pethau yn llwyr. Mae'r cyfyngiadau ym mharagraffau 8, 10 ac 11 yn dweud na ellir gwneud rhai pethau oni bai bod cydsyniad yn cael ei sicrhau neu fod ymgynghoriad yn cael ei gynnal. Mae gan hyn ganlyniadau o ran y ffordd orau o sicrhau eglurder wrth ddrafftio darpariaethau yn Neddfau'r Senedd sy'n rhoi swyddogaethau i awdurdodau cyhoeddus yn gyffredinol, yn addasu neu'n dileu swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus yn gyffredinol, neu'n rhoi pwerau i wneud y pethau hynny mewn rheoliadau.*
>
> *Er y byddai adran 154 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael yr un effaith pe na bai adran 137 yn y Bil, ni fyddai'n bosibl gweithio allan o ddarllen y Bil, ar y cyd â GOWA 2006, a ellid defnyddio unrhyw bŵer yn y Bil sy'n ymddangos fel pe bai'n awdurdodi rhoi, addasu neu ddileu swyddogaethau, er mwyn rhoi swyddogaethau i awdurdodau a gedwir yn ôl, neu addasu neu ddileu'r swyddogaethau hynny.*

[120] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [106]. Gweler hefyd Gofnod y Trafodion [108].

*Er mwyn i berson ddeall cwmpas y pwerau i wneud rheoliadau, byddai angen iddynt chwilio am dystiolaeth ynghylch a gafwyd cydsyniad ai peidio, neu a gynhaliwyd ymgynghoriad, ac os felly, byddai angen iddynt hefyd adolygu'r ohebiaeth rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidog perthnasol y Goron er mwyn deall yn llawn y ddarpariaeth y gellid ei gwneud mewn is-ddeddfwriaeth o dan y Bil.*

*Trwy gynnwys adran 137, mae rhychwant pŵer Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth yn glir o ddarllen y Bil yn unig, ac yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth."*[121]

## Ein barn ni

**213.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas â Rhan 8 o'r Bil.

**214.** Fel y nodir uchod, mae adran 121(5) yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi swyddogaeth, gan gynnwys un sy'n ymwneud ag arfer disgresiwn, i unrhyw berson mewn cysylltiad â chodi ffioedd am gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau cydsyniad seilwaith.

**215.** Mae gennym bryderon bod y pŵer hwn yn eang ac nid yw'r Bil ei hun yn cynnwys llawer o fanylion ynghylch yr hyn y gallai'r swyddogaethau a roddir ei olygu. Yn ei thystiolaeth, cyfeiriodd y Gweinidog at sawl enghraifft o beth fyddai'r swyddogaethau hyn. Gan hynny, nid yw'n glir inni pam nad yw'r manylion hynny ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 41.** Dylid diwygio adran 121 o'r Bil fel bod manylion y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-adran (5) y caniateir eu cynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (1) yn cael eu rhestru ar wyneb y Bil. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n galluogi diwygio'r rhestr hon.

**216.** Wrth inni ofyn cwestiynau am adran 126 (ac yn debyg i'n diddordeb yn adrannau 33 a 34), fe wnaethom geisio cael rhagor o fanylion gan y Gweinidog ynghylch pa awdurdodau cyhoeddus yr ymgynghorir â hwy o dan adran 126(1).

**217.** Rydym yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog ei bod yn bwriadu sicrhau y bydd y rhestr o awdurdodau a chyrff sydd i'w nodi fel ymgyngoreion statudol yn cael ei chynnwys mewn is-ddeddfwriaeth yn dilyn ymgynghoriad. Nid yw'n glir inni pam

[121] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Hydref 2023, ymateb i gwestiwn 8

y bydd rhestru awdurdodau cyhoeddus yr ymgynghorir â hwy yn darparu lefel sylweddol o fanylion.

**218.** O ystyried bod y Gweinidog wedi cadarnhau y rhagwelir yr ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru ym mhob achos, nid yw'n glir inni pam nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghorai a enwir ar wyneb y Bil. Fel y nodwyd gennym mewn perthynas ag adrannau 33 a 34, byddai hyn yn rhoi sicrwydd, yn enwedig i Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Argymhelliad 42.** Dylid diwygio adran 126 o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, ac unrhyw gorff/person hysbys arall, ynghylch cais dilys am gydsyniad seilwaith.

**219.** Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas ag adran 127, sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i awdurdodau cyhoeddus. Mae'r pŵer yn adran 127(1) i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod cyhoeddus i "wneud pethau" mewn perthynas â chais yn annelwig. Nid yw'r drafftio yn galluogi'r darllenydd i ddeall pa gamau y gellir disgwyl i awdurdod cyhoeddus eu cymryd mewn perthynas â chais.

**Argymhelliad 43.** Dylai'r Gweinidog egluro manylion y "pethau" y gall fod yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus eu gwneud yn unol â chyfarwyddyd a wneir gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 127(1), a dylid diwygio'r Bil i nodi'r manylion hyn.

**Argymhelliad 44.** Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion ac eglurder ynghylch pam mae'r pŵer i wneud cyfarwyddydau yn adran 127(1) yn angenrheidiol, a pham nad yw'r gofynion statudol sydd i'w gosod ar awdurdod cyhoeddus wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil.

**220.** Rydym yn croesawu'r cyfeiriad penodol at awdurdodau cynllunio a Cyfoeth Naturiol Cymru ar wyneb y Bil yn adran 127(2). Mae hyn yn rhoi syniad i'r darllenydd o'r mathau o awdurdodau cyhoeddus sy'n cael eu hystyried. Fodd bynnag, rydym yn credu bod y ddibyniaeth ar reoliadau i bennu un neu fwy o awdurdodau datganoledig pellach yng Nghymru yn adran 127(2)(c) yn anfoddhaol. Os yw Llywodraeth Cymru yn gwybod pa gyrff fydd y rhain, yna rydym o'r farn y dylid yn hytrach gynnwys y rhestr hon ar wyneb y Bil. Rydym yn cydnabod y gall fod gofyniad i addasu'r rhestr yn y dyfodol er mwyn ychwanegu neu ddileu awdurdodau datganoledig Cymreig ohoni. O'r herwydd, rydym o'r farn y gallai pŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi diwygio'r rhestr fod yn briodol. Dylai rheoliadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

**Argymhelliad 45.** Dylid diwygio adran 127 i gynnwys y rhestr o awdurdodau datganoledig perthnasol yng Nghymru y bydd yr adran yn gymwys iddynt. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n galluogi diwygio'r rhestr hon.

**221.** Mae is-adran (4) o adran 127 yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi darpariaeth i gael ei gwneud mewn cysylltiad ag adennill costau yr eir iddynt gan awdurdodau cyhoeddus am bethau sy'n cael eu gwneud yn unol â chyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (1). Nid yw'n glir inni pam nad yw'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i reoliadau y caniateir eu gwneud o dan is-adran (4).

**Argymhelliad 46.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft yn gymwys wrth arfer y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 127(4).

**222.** O ran adran 128, rydym yn nodi bod yr adran yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn eu galluogi i gyfarwyddo nad yw gofynion o dan y Bil (os a phan ddaw'n ddeddf) yn gymwys mewn achosion a bennir yn y cyfarwyddyd. Rydym yn nodi ymhellach y bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft ac ni fydd y pŵer i wneud cyfarwyddydau yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn.

**Casgliad 12.** Ein pryder cyffredinol gydag adran 128 yw y bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau y bydd y Senedd wedi craffu arnynt. Mae hyn yn golygu y gofynnir i'r Senedd gymeradwyo'r darpariaethau a'r gofynion yn y Bil gan wybod y gall Gweinidogion Cymru eu newid wedyn. Mae hefyd yn creu diffyg sicrwydd a hygyrchedd i randdeiliaid.

**223.** Yn benodol mewn perthynas â'r pŵer Harri VIII i wneud cyfarwyddydau heb weithdrefn yn adran 128(1), mae'r rhesymeg dros ddull y Gweinidog o greu'r pŵer i wneud cyfarwyddydau yn parhau i fod yn aneglur i ni. Fel y dywedwyd yn gynharach yn y Bennod hon, yn ein barn ni, mae'n bwysig bod y Senedd yn ymwybodol ac yn cymeradwyo paramedrau pŵer Gweinidogol i roi cyfarwyddydau.

**Argymhelliad 47.** Dylai'r Gweinidog egluro pam mae angen y dull a fabwysiadwyd yn adran 128(1) o ran y pŵer i wneud cyfarwyddydau.

**Argymhelliad 48.** Dylid diwygio adran 128 i gynnwys manylion yr hyn y gall cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (1) ei gynnwys. Gellir diwygio'r Bil hefyd i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft sy'n galluogi diwygio'r rhestr hon.

**Argymhelliad 49.** Dylid diwygio adran 128 i'w gwneud yn ofynnol bod cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (1) yn cael ei osod gerbron y Senedd, ynghyd â datganiad i bob Aelod o'r Senedd.

**224.** Yn olaf, rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mewn perthynas ag adran 129 o'r Bil. Yn benodol, nodwn fod is-adran (2) yn cynnwys pŵer Harri VIII. Er ein bod yn cydnabod y rhesymau a nodwyd dros yr angen am y pŵer hwn, credwn y dylai ei ddefnydd fod yn destun gweithdrefn graffu uwch.

**Argymhelliad 50.** Dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir o dan adran 129(2) o'r Bil fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.